CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU
THE LEARNED SOCIETY OF WALES




# CDdC Adolygiad Blynyddol 2023-24

## Grym Gwybodaeth

# Cynnwys


02 | Gair o Groeso gan y Llywydd

03 | Adolygiad o'r Flwyddyn gan y Prif Weithredwr

04 | Blwyddyn o Effeithiau

06 | Adroddiad Effeithiau Ymchwil

08 | Arloesi Cynhwysol

10 | Ymchwil a Gyllidir Gennym

12 | Cydweithio a Phartneriaeth

14 | Ein Medalau

16 | Datblygu Ymchwilwyr

18 | Colocwiwm y Rhwydwaith Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar 'Cymru Gysylltiedig'

20 | Ein Taith TAC

21 | Cymdeithas Deg

22 | Cymrodoriaeth

26 | Swyddogion a'r Cyngor




Trosolwg

# Gair o Groeso gan y Llywydd

Rwy'n falch o gael cyflwyno Adolygiad Blynyddol eleni. Mae'n rhoi cipolwg o'r swm aruthrol o waith a wnaed dros flwyddyn ddiwethaf y Gymdeithas.

Mae un thema gyffredinol yn uno ehangder y gwaith hwnnw: pa mor greiddiol yw tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant (TAC) i bopeth rydym yn ceisio'i wneud.

Er enghraifft, mae gan ein Pennaeth Ecwiti ac Ymgysylltu newydd gyfrifoldeb penodol dros TAC. Mae hyn wedi arwain at ehangu cwmpas ein gweithgor TAC, sy'n cynnwys Cymrodyr sy'n arbenigo yn y maes ac sydd wedi sefydlu'r camau y byddwn yn eu cymryd i sbarduno gwelliannau pellach. Rydym eisoes wedi gweld un effaith amlwg, sef bod traean o'n Cymrodyr eleni o gefndiroedd lleiafrifol ethnig, y gyfran fwyaf yr ydym erioed wedi'i chael.

Dylanwadodd TAC ar lawer o'n gweithgareddau eleni. Mae ein Colocwiwm Rhwydwaith Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar ar 'Gymru Gysylltiedig', ein byrddau crwn arloesi a'u ffocws cryf ar ymgysylltiad dinesig ac arloesi cynhwysol, ein hymrwymiad parhaus i'r Gymraeg, a'n cynllun grant a adeiladwyd o amgylch nodau llesiant Cymru, oll yn arddangos y ffocws hwn.

Ni fyddai dim o'r gwaith yma'n bosib heb y cymorth ariannol a gawn gan ein partneriaid: prifysgolion Cymru a Medr (CCAUC gynt), ein noddwyr, gan gynnwys Taran Therapeutics ac, wrth gwrs, ein Cymrodyr. Rydym yn hyderus y bydd yr hanes o gyflawni yn y Adolygiad Blynyddol hwn yn dangos bod yr arian a dderbyniwn yn cael ei wario mewn modd cynhyrchiol.

Am hynny, rhaid imi ddiolch i'r tîm o staff a'n Prif Weithredwr, Olivia Harrison. Mae pawb sy'n cael y pleser o ddelio â nhw yn gwerthfawrogi eu gwaith caled.



Yr Athro Hywel Thomas

Trosolwg

# Cyflwyniad y Prif Weithredwr

Mae'r Adolygiad Blynyddol hwn yn dathlu blwyddyn lwyddiannus yn hanes y Gymdeithas, wrth inni ymdrechu i greu amgylchedd lle gall ymchwilwyr, Cymrodyr a'r sefydliad ei hun ffynnu.

Mae ein gwaith i ddatblygu ymchwilwyr yn rhan annatod o hyn. Rydym yn falch o'r effaith y mae ein Rhwydwaith Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar yn ei chael, o ran gwneud Cymru yn lle gwych i fod yn ymchwilydd. Daeth rhaglen o ddigwyddiadau Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar i ben gyda'n hail Golocwiwm blynyddol. Mae'r Colocwiwm eisoes yn ddigwyddiad carreg filltir lle gall Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar o bob rhan o Gymru greu cysylltiadau rhyng-ddisgyblaethol ac ehangu eu safbwyntiau, gan roi hwb i effaith eu hymchwil.

Mae ymchwilwyr Cymru hefyd yn derbyn cymeradwyaeth gyhoeddus bob blwyddyn yn ein seremoni fedalau. Mae'r seremoni honno, ynghyd â'n grantiau ymchwil, yn golygu bod y Gymdeithas nid yn unig yn cyflwyno'r achos o blaid ymchwil yng Nghymru, ond hefyd yn mynd ati'n weithredol i gefnogi ei thwf.

Mae cymaint o hyn yn bosibl oherwydd ymgysylltiad cynyddol ein Cymrodyr. Mae gwerth eu harbenigedd a'u profiad cyfun yn amhrisiadwy. Rwy'n falch iawn bod cymaint o Gymrodyr yn teimlo ein bod wedi creu amgylchedd sy'n croesawu eu cyfranogiad, o ysgogi ein byrddau crwn ar bolisi arloesi hyd at gynnal seminarau'r Rhwydwaith Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar, ac eistedd ar ein gweithgor tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant.

Yn olaf, rydym wedi cymryd camau breision i greu amgylchedd sy'n gwneud y Gymdeithas yn sefydliad effeithlon ac effeithiol. Mae gwaith Cymrodyr ar ein Cyngor a'n pwyllgorau yn sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau gwerthfawr ac wedi ein galluogi i wneud rhai penodiadau pwysig i'n tîm o staff. Mae hyn yn ein helpu i gyflawni ein huchelgeisiau strategol i fod yn gynhwysol ac yn gydweithredol, i dyfu talent, ac i greu effaith er budd Cymru.

I gloi, hoffwn ddiolch i'r tîm o staff. Mae Cymdeithas Ddysgedig Cymru yn sefydliad hapus a ffyniannus ac, i raddau helaeth, i'w hymroddiad a'u doniau amrywiol hwy y mae'r diolch am hynny.



Olivia Harrison

**Hoffem ddiolch i Medr (CCAUC gynt) a'r naw prifysgol yng Nghymru. Ynghyd â thanysgrifiadau ein Cymrodyr, mae eu cymorth ariannol hwy yn greiddiol i'n hincwm blynyddol.**

**Yn ogystal, rydym yn ddiolchgar i'n holl bartneriaid am eu cyfraniadau drwy rodd drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant am eu cyfraniad hael o swyddfeydd y Gymdeithas.**

Trosolwg

# Blwyddyn o Effeithiau

## Cydweithrediadau Celtaidd

Mewn digwyddiad cydweithredol ar gyfer ymchwil rhyngwladol, cafodd Cymru ei chyflwyno gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru fel gwlad sy'n edrych tuag at allan, a chanddi gysylltiadau byd-eang cryf. Trefnwyd y digwyddiad ar y cyd ag academïau cenedlaethol Iwerddon a'r Alban, ac roedd academyddion a llywodraethau o'r tair gwlad yn bresennol.

## Arloesi cynhwysol i Gymru

Nododd arbenigwyr o Gymrodoriaeth Cymdeithas Ddysgedig Cymru y modd y gall Cymru, a gwledydd bach eraill, ddysgu gwersi pwysig yn sgil ymagwedd Gwlad y Basg at ymchwil.

## Menywod mewn STEMM: Dathlu Rhagoriaeth

Derbyniodd yr Athro Siwan Davies FLSW Fedal Frances Hoggan 2023 am ei hymchwil i'r modd y gall dadansoddiad cemegol o ronynnau lludw folcanig microsgopig ddweud mwy wrthym am y newid hinsawdd.

## Tuag at Gymrodoriaeth amrywiol

Ymunodd 43 o arbenigwyr newydd â'n Cymrodoriaeth, gyda thraean ohonynt o gefndiroedd lleiafrifol ethnig.

## Tystiolaeth BSL yn y Senedd

Drwy gyllid Cymdeithas Ddysgedig Cymru cefnogwyd rhwydwaith o ymchwilwyr a'r gymuned fyddar, a roddodd dystiolaeth a mewnbwn arbenigol ynghylch Iaith Arwyddion Prydain ar gyfer bil newydd yn y Senedd.

## Mae ymchwil o fudd i Gymru

Canfu ein hadroddiad newydd fod 70% o'r 280 o astudiaethau achos effaith a gyflwynwyd gan brifysgolion Cymru i ymarfer asesu ymchwil Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021 wedi creu buddion parhaol i Gymru.




## Cefnogi ymchwilwyr sy'n wynebu risg

Rhoddodd academydd o Wcráin a gafodd gefnogaeth i setlo yn y DU fflach-sgwrs yn ein Colocwiwm TAC, ar y profiadau o ormes a gwytnwch sy'n gyffredin rhwng Cymru ac Wcráin

## 'Cymru Gysylltiedig'

Croesawodd ein colocwiwm dwyieithog dros 100 o ymchwilwyr gyrfa gynnar i Fangor o bob rhan o Gymru i rannu eu hymchwil a dysgu sut i lunio ceisiadau grant.

## Ethol enillydd Gwobr Nobel

Cafodd Cymro-Americanwr, yr Athro William D Phillips, enillydd Gwobr Nobel, ei ethol yn Gymrawd Anrhydeddus: "Mae cymdeithasau dysgedig yn chwarae rhan fwyfwy pwysig yn ein diwylliant modern am eu bod....yn darparu gwybodaeth ddibynadwy y gall llywodraethau a dinasyddion ei defnyddio."

## Sgiliau ar gyfer y genhedlaeth nesaf o ymchwilwyr

Cyflwynodd Cymrodyr Cymdeithas Ddysgedig Cymru weithdai ar gyfer ymchwilwyr gyrfa gynnar ar gyhoeddi, ymgysylltu â'r gymuned, gweithio gyda'r cyfryngau, a mwy.

Effaith

# Mae Adroddiad CDdC yn Dangos bod Ymchwil Cymreig yn Newid y Byd er Gwell

Dangosai ein dadansoddiad o astudiaethau achos effaith a gyflwynwyd gan brifysgolion Cymru i ymarfer diweddaraf y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (FfRhY) fod prifysgolion yng Nghymru yn creu newid er gwell, yng Nghymru ac yn fyd-eang.

Y FfRhY yw system y DU ar gyfer asesu rhagoriaeth ymchwil darparwyr addysg uwch y DU. Defnyddir canlyniadau'r FfRhY yn sail ar gyfer dyrannu cyllid cyhoeddus ar gyfer ymchwil mewn prifysgolion.

Roedd adroddiad y Gymdeithas Ddysgedig yn canolbwyntio ar yr astudiaethau achos ymchwil a ddewiswyd i'w cyflwyno gan y naw prifysgol yng Nghymru. Mae'r astudiaethau achos hyn yn dangos y buddion a gaiff eu creu y tu allan i'r sector ymchwil. Canfuwyd bod Ymchwil yng Nghymru yn newid y byd er gwell, o lanhau dŵr yfed wedi'i halogi yn sgil tanau gwyllt i ddyfeisio seddau wedi'u haddasu sy'n galluogi plant â chyflyrau niwroddatblygol i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae a theulu.

## Y Prif Ganfyddiadau

### 'Cymru'

yw'r testun ymchwil mwyaf cyffredin a gyflwynir, ac nid yw hyn yn rhywbeth a welir yn rhannau eraill y DU.

### Adroddodd 70%

o astudiaethau achos effaith leol yng Nghymru.

### Adroddodd 60%

effeithiau rhyngwladol.

### 2500 o swyddi newydd

Adroddodd yr astudiaethau achos fod 2500 o swyddi newydd wedi'u creu o ganlyniad i waith ymchwil.

### Bu 94%

o astudiaethau achos yn cydweithio â phartneriaid o'r tu allan i'r brifysgol.

Archwiliwch y prif ganfyddiadau mewn mwy ofanylder: Eff aith yr Ymchwil gan Brifysgolion Cymru.



## Pwy sy'n elwa ar ymchwil Cymreig?

### Pobl yng ngwahanol gyfnodau eu bywyd

Gan gynnwys plant, yr henoed a rhieni.

### Gweithwyr proffesiynol

Gan gynnwys gofalwyr, sector cyhoeddus, cerddorion, artistiaid a clinigwyr.

### Cymunedau ar y cyrion

Gan gynnwys ffoaduriaid, merched, grwpiau-seiliedig ar ryw a pobl anabl.

## Meysydd o effaith

- Iechyd cyhoeddus a'r gwasanaethau iechyd
- Meddygaeth glinigol
- Ynni, yr amgylchedd a pheirianneg
- Gwybodaeth, technoleg gymhwysol a dadansoddeg
- Hyfforddiant, addysg a sgiliau
- Bwyd, yr amgylchedd ac ecoleg
- Cyfiawnder troseddol a hawliau dynol
- Polisi, moeseg a diogelwch
- Busnes, cynllunio ac economeg
- Cenhedloedd datganoledig
- Diwylliant a chymdeithas
- Hanes, treftadaeth a'r celfyddydau creadigol

Creodd prifysgolion Cymru effeithiau ar draws yr holl feysydd effaith a nodwyd drwy ddadansoddiad y DU gyfan, gan ddangos ehangder cryfderau ymchwil Cymru.

## Llwybrau annisgwyl

| | |
|---|---|
| Seicoleg | Hanes a threftadaeth ddiwylliannol |
| Ffiseg | Cerddoriaeth |
| Gwleidyddiaeth | Darganfod cyffuriau a threialon clinigol |
| Celf a Dylunio | Dementia |
| Hanes | Peirianneg |

Wrth chwilio am ateb i broblem, nid yw'r ateb bob amser i'w gael yn y man mwyaf amlwg; dyma pam ei bod yn bwysig cynnwys arbenigedd trawsddisgyblaethol wrth ymgynghori ag ymchwilwyr. Mae'r llwybrau annisgwyl hyn hefyd yn tanlinellu pwysigrwydd cyllid "cysylltiedig ag ansawdd" ar gyfer ymchwil, nad yw'n gysylltiedig â disgyblaethau na deilliannau penodol, gan ganiatáu i ymchwilwyr archwilio syniadau newydd lle bo'r canlyniadau'n anhysbys.

Effaith

# Yng Nghymru, mae Dyfodol Arloesi yn Gynhwysol

Daeth cyfres o gyfarfodydd bord gron â'n cymrodyr arbenigol a llunwyr polisi ynghyd i gynllunio dyfodol cynhwysol ar gyfer arloesi yng Nghymru.

Mae arloesi cynhwysol yn ailddiffinio'r dirwedd arloesi drwy bwysleisio amrywiaeth, tegwch a hygyrchedd. Mae'n sicrhau bod cymdeithas gyfan yn teimlo'r budd a ddaw yn sgil datblygiadau technolegol ac entrepreneuraidd. Mae'r ymagwedd gynhwysol hefyd yn berthnasol i'r amrywiaeth o fathau a graddfeydd o arloesi, yn ogystal â chreu gwerth, boed yn werth diwylliannol a chymdeithasol neu'n llwyddiant masnachol ac economaidd.

Roedd cyfres Arloesi Cynhwysol y Gymdeithas Ddysgedig yn archwilio prif broblemau'r rhai sy'n gweithredu yn ecosystem arloesi Cymru, gan geisio dysgu gwersi o genhedloedd bach eraill. Daeth trafodaethau bord gron, o dan arweiniad yr Athro Rick Delbridge FLSW, â Chymrodyr y Gymdeithas ynghyd i gynnal trafodaeth â gweithredwyr dinesig rhanbarthol â chenedlaethol, ynghyd a siaradwyr rhyngwladol.

Lluniwyd papur briffio gennym o bob bord gron, gydag argymhellion i lunwyr polisi ac unrhyw un sy'n ymwneud â'r byd arloesi yng Nghymru. Mae'r adroddiad terfynol, 'Arloesi Cynhwysol i Gymru', yn rhoi crynodeb o'r rhaglen, ac yn lasbrint ar gyfer dyfodol arloesi yng Nghymru.

> **"Rydym yn gweld bord gron arloesi Cymdeithas Ddysgedig Cymru fel elfen bwysig sy'n llywio'r hyn rydyn ni'n ei wneud."**

Yr Athro David Sweeney,
Dirprwy Gadeirydd, Medr



Darllenwch ein hadroddiad:
Arloesi Cynhwysol
yng Nghymru.



# Y Prif Ganfyddiadau

## Beth sy'n gweithio yng Nghymru?

Mae pwerau datganoledig ar gyfer dinas-ranbarthau yn creu polisïau lleoledig, ymatebol sy'n mynd i'r afael ag anghenion penodol sy'n seiliedig ar le.

Cydnabyddir Cymru fel arweinydd y DU o ran integreiddio sefydliadau addysg bellach i'r ecosystem arloesi.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ein hannog i feddwl am y tymor hir yng Nghymru.

Mae gan Brifysgolion yng Nghymru ymrwymiad cynyddol i genhadaeth ddinesig: bod partneriaethau lleol cryf yn sbarduno ac yn lledaenu arloesedd mewn modd cynhwysol.

## Rhwystrau

Mae'r sector cyhoeddus yn parhau i fod yn gyndyn o fentro: mae systemau rheoleiddio a gwerthuso sydd wedi dyddio yn groes i'r ddeddfwrfa uchelgeisiol.

Mae cynlluniau cyllido a gweithdrefnau ymgeisio anhyblyg yn cyfyngu ar gyfranogiad ac yn atal arloesi.

Ceir camsyniad parhaus mai ond cwmnïau technoleg mawr sy'n sbarduno twf, ac amharodrwydd i goleddu fersiwn graddfa lai o arloesi ar gyfer bywyd bob dydd.

Bydd cyfyngiadau ar adnoddau yn annog sefydliadau i encilio i fusnes fel arfer. Gan hynny, mewn cyfnodau o brinder y ceir yr angen mwyaf am gymhellion i arloesi.

## Beth sy'n gweithio mewn mannau eraill?

Mae Gwlad y Basg yn elwa ar ddegawdau o ddilyniant polisi a gweithredwyr rhyngol cryf sy'n cefnogi ei heconomi arloesi.

Mae mecanweithiau cyllido arloesi yn yr Alban yn amrywiol ac yn gydgysylltiedig; Mae Interface a Scottish Enterprise yn ganolfannau defnyddiol.

Mae fframweithiau ymchwil ac arloesi cyfrifol UKRI yn mynnu bod moeseg ac anghenion cymdeithas yn llywio datblygiadau arloesol a thechnolegol.

Effaith

# Ymchwil a Gyllidir Gennym: Cynhyrchu Momentwm

Daeth ein grantiau gweithdai ymchwil ag ymchwilwyr mewn prifysgolion ledled Cymru ynghyd ag arbenigwyr o'r tu allan i'r byd academaidd. Mae'r cydweithio hwn yn cyfuno egni ag arbenigedd i ddatblygu ymchwil sy'n ymdrin â materion brys i Gymru.

Rydym yn dyfarnu grantiau i:

- Ymchwilwyr gyrfa gynnar, gan roi profiad arwain gwerthfawr i ymchwilwyr newydd;
- Astudiaethau Cymru, sy'n dangos gwerth astudio Cymru, a'r diddordeb byd-eang yn hynny;
- Y Dyniaethau, Y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol sy'n cael eu tanariannu'n gyson ar draws y DU.


Mae'r rhai sy'n derbyn ein grantiau hefyd yn elwa ar fod yn rhan o'n rhwydwaith ymchwil. Mae hyn yn helpu llawer ohonynt i wneud cais ar y cyd am grantiau mwy, gan ddenu cyllid o'r tu allan i Gymru ac ennill hygrededd i gysylltu â phartneriaid rhyngwladol pwysig. Mae rhwydweithiau ymchwil hefyd yn rhannu gwybodaeth ac yn lleihau achosion o ail-wneud gwaith ar draws sefydliadau.

Eleni, mae'r rhai y dyfarnwyd cyllid iddynt wedi mynd ati i greu prosiectau cydweithredol â sefydliadau dinesig pwysig, gan gynnwys:

## Deddfwriaeth Iaith Arwyddion Prydain yng Nghymru

O dan arweiniad Dr Julia Terry, Prifysgol Abertawe

Cryfhaodd y grant hwn y **Rhwydwaith Ymchwil Iaith Arwyddion Prydain a Byddardod yng Nghymru.** Daeth ag ymchwilwyr ynghyd â'r gymuned f/Fyddar yng Nghymru i archwilio materion a oedd yn cynnwys BSL ar gyfer S4C, a phrofiadau nyrsys b/Byddar a phobl f/Fyddar ym myd chwaraeon. Darparodd y grŵp dystiolaeth a mewnbwn arbenigol i gefnogi datblygiad Bil Iaith Arwyddion Prydain (BSL) Cymru sy'n dal ar y gweill.







## Meithrin noddfa a gwrth-hiliaeth yng Nghymru

O dan arweiniad Sharmin Julie, Prifysgol De Cymru

Mae'r rhwydwaith hwn yn dod â phrifysgolion Cymru a sefydliadau cymunedol ynghyd i ysgogi ymchwil i wrth-hiliaeth, gan gyfeirio at Gynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru, Cymru Wrth-hiliol.

## Ymdrin â thrawma gyda Heddlu Gogledd Cymru

O dan arweiniad Dr Tegan Brierley-Sollis, Prifysgol Wrecsam

Datblygodd cyfres o weithdai gyda Heddlu Gogledd Cymru fodelau sensitif ar gyfer astudio trawma a straen trawmatig eilaidd. Dyfarnodd Hwb Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod Cymru £15,000 i ddatblygu'r gwaith ymhellach, gan adeiladu ar grant y Gymdeithas Ddysgedig.

> **"Mae'r prosiect hefyd wedi cael effaith gadarnhaol ar fy ngyrfa fel ymchwilydd gyrfa gynnar, gan ei fod wedi fy ngalluogi i fod yn brif ymchwilydd ochr yn ochr â thîm ymchwil."**

## Defnyddio ymchwil i fynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol

O dan arweiniad Dr Deborah Morgan, Prifysgol Abertawe

Mae rhwydwaith o ymchwilwyr ac ymarferwyr o bob rhan o Gymru wedi dod ynghyd i archwilio allgáu cymdeithasol, gan fynd i'r afael â Strategaeth unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol Llywodraeth Cymru.

## Sbarduno diddordeb rhyngwladol yn hanes Cymru

O dan arweiniad Stephanie Ward, Prifysgol Caerdydd

Drwy'r grant ariannwyd cynhadledd a ddaeth â myfyrwyr ôl-raddedig Hanes Cymru ynghyd o sefydliadau yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Ffrainc. Roedd cwmpas rhyngwladol y gynhadledd yn tystio i gyrhaeddiad byd-eang Astudiaethau Cymru.

> **"Mae gan y myfyrwyr MA bellach ddealltwriaeth gliriach o'r hyn y mae doethuriaeth yn ei olygu ac maent wedi sôn am ymgeisio am gyllid y flwyddyn nesaf."**

## Cadw diwylliant Cymru yn fyw

O dan arweiniad Mared Roberts, Llenyddiaeth Cymru

Roedd Cerdd Tafod Arall | Music of Another Tongue yn cyflwyno'r traddodiad Canu Caeth i feirdd o bob cwr o'r byd, gyda'r Athro Mererid Hopwood FLSW a Hanan Issa, Bardd Cenedlaethol Cymru.

Arweiniodd y prosiect at gomisiynu wyth cerdd wedi'u hysbrydoli gan Ganu Caeth; cerddi yw'r rhain gan feirdd sy'n newydd i'r traddodiad, a'r gweithdai oedd y tro cyntaf i lawer ddysgu am Gymru. Mae'r prosiect wedi denu sylw BBC Radio 4.

Cydweithio

# Gweithio Cydgysylltiedig: Cydweithio a Phartneriaeth

Defnyddiwyd ein cysylltiadau i weithio gydag eraill i ddatblygu diwylliant ymchwil Cymru.

## Adeiladu rhwydweithiau, cefnogi ein partneriaid

Adeiladodd seminar 'Llwybrau at Heddwch' ar ein cysylltiadau ag **Academi Heddwch Cymru**. Aeth naw aelod o'n Rhwydwaith Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar, o amrywiaeth eang o gefndiroedd a disgyblaethau, ati i archwilio ffynonellau cyfoes o wrthdaro yng Nghymru a thu hwnt, ac i archwilio ffyrdd newydd o liniaru neu ddatrys y gwrthdaro hwnnw. Yn y cyfamser, ymunodd Hwb Gwybodaeth **Academia Europaea Caerdydd** â ni i gynnal sesiwn ar hyrwyddo effaith ymchwil ac ymgysylltu â pholisi. Roedd yn cynnwys siaradwyr o Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, Mecanwaith Cyngor Gwyddonol Ewrop, a Pholisi Cyhoeddus UCL.

Rydym hefyd yn parhau i gydweithredu ag **Academi Ifanc y DU**, sy'n cynyddu ymdrechion i ddenu aelodau newydd o Gymru, yn ogystal â'r **Academi Brydeinig**, y mae rhai o'u haelodau wedi ymuno â'n gweminarau.

Unwaith eto, darparwyd grantiau gennym i gefnogi nifer o ddigwyddiadau. Rhoddwyd **Darlith Edward Lhuyd**, a oedd yn archwilio sut i fuddsoddi am ddyfodol cynaliadwy, gan Carol Bell FLSW. Hi hefyd a draddododd **Ddarlith Eisteddfod 2023 y Gymdeithas**, gan ddisgrifio hynt ei gyrfa o fyd cyllid tuag at wynebu heriau'r argyfwng hinsawdd. Yr Arglwydd Thomas o Gwmgiedd FLSW a draddododd **Ddarlith Ymddiriedolaeth Hamlyn** ar y cyfreithiau sydd eu hangen ar gyfer masnach drawswladol, tra rhoddodd yr Arglwydd Darzi o Denham **ddarlith Zienkiewicz** Prifysgol Abertawe ar sut y gall gwyddoniaeth a thechnoleg drawsnewid gofal iechyd. Yn olaf, roeddem yn falch iawn o gefnogi'r **gynhadledd ryngwladol flynyddol ar Hyrwyddo a Gwerthuso Effaith Gwyddoniaeth ar Gymdeithas**, a oedd yn cynnwys nifer o'n Cymrodyr.


## Pa fath o brifysgol, ar gyfer pa fath o ddyfodol?

Traddododd yr Athro Wendy Larner FLSW, Cymrawd Cymdeithas Ddysgedig Cymru ac Is-Ganghellor Prifysgol Caerdydd, ddarlith mewn digwyddiad ar y cyd rhyngom ni a CaSE, yr Ymgyrch dros Wyddoniaeth a Pheirianneg. Cyflwynodd yr Athro Larner ei gweledigaeth ar gyfer Prifysgol Caerdydd, safle'r brifysgol yng nghyd-destun diwydiannol a daearyddol Cymru, a'r heriau o flaen y sector prifysgolion yn ei gyfanrwydd.

CaSE yw prif eiriolwr annibynnol y DU ar gyfer gwyddoniaeth a pheirianneg, a'i chenhadaeth yw rhoi ymchwil wrth galon dyfodol y DU. Rydym yn gweithio gyda CaSE i gynyddu ystyriaeth a dealltwriaeth o'r dirwedd ymchwil ac arloesi unigryw yng Nghymru a'r gwledydd eraill datganoledig.






## Rhoi hwb i brosiectau ymchwil Celtaidd cydweithredol

Roedd arddangosfa Cynghrair Academïau Celtaidd, a gynhaliwyd yn Nulyn, yn cynnwys ymchwilwyr o bob rhan o Gymru, Iwerddon a'r Alban. Gwnaed cysylltiadau newydd, a darganfu'r mynychwyr adleisiau parhaus rhwng y tair gwlad: tebygrwydd o ran maint a daearyddiaeth; diwylliannau cryf o ysgolheictod; arfordiroedd cysylltiedig; a dyhead cyffredin i edrych y tu hwnt i ymchwil Eingl-ganolog draddodiadol.

Dangosai'r dystiolaeth a gafwyd yn y digwyddiad fod rhannu adnoddau ac arbenigedd ar draws Môr Iwerddon wedi arwain at ymchwil fwy dylanwadol a mwy effeithlon. Dangosodd y drafodaeth fod yna fwlch am gyllid teirochrog rhwng Cymru, Iwerddon a'r Alban, a bod cryn awydd am gynllun o'r fath ar draws pob disgyblaeth.

Talent

# Ein Medalau

Roedd ein digwyddiad blynyddol nodedig, a gynhaliwyd eleni gan Jeremy Miles AS yn y Senedd, unwaith eto'n dathlu ymchwil o'r safon uchaf gan egin arbenigwyr, ac arbenigwyr sydd wedi ennill eu plwyf.

Noddwyd gan:

## Medal Menelaus: dathlu rhagoriaeth mewn peirianneg a thechnoleg

Yr Athro Aimee Morgans FLSW, Coleg Imperial Llundain

Peiriannydd mecanyddol sy'n gweithio ar wella diogelwch ac effaith amgylcheddol injanau tyrbin nwy.

Noddwyd gan: Llywodraeth Cymru Welsh Government

## Medal Frances Hoggan: dathlu ymchwil ragorol gan fenywod mewn STEMM

Yr Athro Siwan Davies FLSW, Prifysgol Abertawe

Yn archwilio gronynnau lludw folcanig i ail-greu newid hinsawdd y gorffennol, gan roi mewnwelediad i ddigwyddiadau'r dyfodol.

Noddwyd gan: Llywodraeth Cymru Welsh Government

## Medal Hugh Owen: dathlu ymchwil addysgol eithriadol yng Nghymru

Yr Athro Tom Crick FLSW, Prifysgol Abertawe

Yn cymhwyso cyfrifiadureg i effeithio ar bolisi cyhoeddus, diwygio'r cwricwlwm ac offer cynaliadwyedd.

Noddwyd gan: hefcw Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru Higher Education Funding Council for Wales

## Medalau Dillwyn: dathlu ymchwilwyr gyrfa gynnar rhagorol yng Nghymru

Dr Iestyn Woolway, Prifysgol Bangor

Gwyddonydd amgylcheddol yn mapio newid hinsawdd mewn dŵr drwy ddefnyddio uwchdechnolegau modelu.

Dr Rebecca Thomas, Prifysgol Caerdydd

Hanesydd gwleidyddol a diwylliannol Cymru'r Oesoedd Canol, yn ogystal â nofelydd cyhoeddedig.

Dr Leighton Evans, Prifysgol Abertawe

Arbenigwr rhith-realiti yn archwilio sut mae cyfryngau digidol wedi dod yn rhan annatod o fywyd bob dydd.




**"Mae derbyn y fedal hon yn brofiad gwych ac yn anrhydedd mawr. Rwy'n hynod ddiolchgar i'r Gymdeithas Ddysgedig am y gydnabyddiaeth. Mae cael eich cydnabod fel hyn ar ddechrau eich gyrfa yn wirioneddol arbennig."**

Dr Rebecca Thomas,
enillydd medal Dillwyn 2023

**"Rwy'n falch iawn o dderbyn y fedal, ac mae'n anrhydedd. Mae'n ffordd wych o ddilysu'r gwaith rydw i'n ei wneud, i'r bobl rydw i'n eu cefnogi a'r bobl sydd wedi fy nghefnogi i dros y degawd diwethaf."**

Dr Leighton Evans,
enillydd medal Dillwyn 2023

# Datblygu Ymchwilwyr

RHWYDWAITH YMCHWILWYR GYRFA CYNNAR
CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU
EARLY CAREER RESEARCHERS NETWORK
LEARNED SOCIETY OF WALES

Cymerodd ymchwilwyr gyrfa gynnar ran yn ein gweithgareddau i wneud eu gwaith yn fwy amlwg, datblygu sgiliau newydd, ac ehangu eu rhwydweithiau.

## Rhwydwaith Ymchwilwyr Gyrfa Cynnar

Mae Rhwydwaith Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar Cymdeithas Ddysgedig Cymru ar agor i ymchwilwyr o unrhyw sector, disgyblaeth neu sefydliad yng Nghymru sy'n ystyried eu bod ar gam cynnar yn eu gyrfa ymchwil. Mae'r rhwydwaith yn dod â channoedd o ymchwilwyr ynghyd o bob rhan o STEMM, y dyniaethau, y celfyddydau, a'r gwyddorau cymdeithasol, gyda chynrychiolaeth o bob prifysgol yng Nghymru, yn ogystal â diwydiant, elusennau, a'r sector cyhoeddus.



## Gweminarau i ddatblygu sgiliau a dirnadaeth

Roedd calendr rheolaidd o weminarau wedi'u hanelu'n benodol at ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa yn galluogi ymchwilwyr gyrfa gynnar i ddysgu gan arweinwyr busnes a dinesig, yn ogystal ag academyddion, a chymryd rhan mewn trafodaethau rhyngddisgyblaethol â chymheiriaid o sefydliadau eraill, gan gynnwys diwydiant, y gwasanaeth iechyd ac elusennau.

Roedd y digwyddiadau hyn wedi'u llywio gan nifer o themâu penodol. Y gyntaf o'r rhain oedd cyfres o weminarau a oedd yn rhoi mewnwelediad i'r amgylchedd ymchwil cyffredinol. O gynnal archwiliad manwl o'r Fframwaith Gwerthuso Ymchwil nesaf, yn 2029, symudwyd yn syth ymlaen i gynnal sesiynau ar sut i greu effaith mewn ymchwil, a phwysigrwydd sefydlu cysylltiadau â chymunedau y tu allan i'r byd academaidd.

Ar agenda lle rhoddwyd mwy o sylw i sgiliau, gwelwyd sesiynau ar ymddwyn fel mentor, gweithio gyda'r cyfryngau, a deall yr amgylchedd cyhoeddi, boed hynny'n gyfnodolion academaidd, yn dai cyhoeddi neu hyd yn oed yn gyfryngau cymdeithasol.

Yn olaf, roedd ein hymrwymiad i feithrin y genhedlaeth nesaf o ymchwilwyr yn amlwg mewn sesiwn ar ddatblygu gyrfa ymchwil gan gadw cydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith.

Ni fyddai'r gweminarau hyn wedi bod yn bosibl heb gefnogaeth y siaradwyr gwadd a'r Cymrodyr a gymerodd ran.



## Ein Cymrodyr: ffynhonnell hanfodol o arbenigedd a chymorth

Mae a wnelo ein gwaith datblygu ymchwilwyr â helpu i greu amgylchedd sy'n cefnogi arbenigwyr Cymru yn y presennol a'r dyfodol.

Un o gryfderau unigryw'r Gymdeithas yw arbenigedd amrywiol ein Cymrodoriaeth. Rydym yn ddiolchgar i'r Cymrodyr niferus sy'n barod i gefnogi'r genhedlaeth nesaf o ymchwilwyr drwy hybu cydweithio rhwng ymchwilwyr ar bob cam o'u gyrfa ac ym mhob sector. Mae'r gallu i ymchwilwyr gyrfa gynnar gysylltu ag arbenigwyr oddi mewn i'r maes, a hefyd oddi allan iddo, yn amhrisiadwy.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweld Cymrodyr yn ein cefnogi mewn nifer o ffyrdd:

- cyflwyno sesiynau yn ein gweminarau a'n colocwiwm;
- eistedd ar ein Grŵp Cynghori ar Ddatblygu Ymchwilwyr;
- mynd i digwyddiadau 'cwrdd a chyfarch' ar draws y wlad sy'n galluogi ymchwilwyr gyrfa gynnar i gwrdd â chysylltiadau pwysig a'u meithrin;
- asesu ceisiadau i'n cynllun grantiau gweithdai ymchwil.



Talent

# Colocwiwm Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar: ‘Cymru Gysylltiedig’

Sefydlodd ein colocwiwm rôl y Gymdeithas fel eiriolwr ar gyfer ymchwil gyrfa gynnar.

Ar gyfer ein hail golocwiwm ar gyfer ymchwilwyr gyrfa gynnar, daeth dros 100 o ymchwilwyr, siaradwyr gwadd a Chymrodyr i Fangor am ddiwrnod o sgyrsiau, gweithdai a rhwydweithio. Cafodd ‘Cymru Gysylltiedig’ ei siapio gan ymchwilwyr gyrfa gynnar eu hunain drwy gymryd rhan yn ein grŵp cynghori. Dangosodd y digwyddiad dwyieithog ein hymrwymiad i gydweithio, sy’n hollbwysig er mwyn gwneud Cymru’n lle gwych i fod yn ymchwilydd.

## Cymru Gysylltiedig: Bangor, Mehefin 2024

### Y brif araith

‘Goroesi a ffynnu mewn ymchwil: y camau tuag at lwyddiant’. Amlinellodd yr Athro Enlli Thomas FLSW y rhwystrau o flaen ymchwilwyr, a’r offer sydd ganddynt i’w chwalu.

### Sgyrsiau fflach

Un sgwrs fflach ar bymtheg, lle dangosodd ymchwilwyr sut mae eu gwaith yn cyfrannu at wireddu nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol ac ymdrechion i greu Cymru sy’n fwy cyfartal, llewyrchus, iach a chydnerth.

### Cystadleuaeth poster

Pedwar poster ar bymtheg a ddangosai’r amrywiaeth aruthrol o ymchwil sy’n cael ei gyflawni yng Nghymru, o ddatblygiad iaith hyd at atebion i lygredd yn yr aer a thriniaethau ar gyfer clefydau niwrolegol.

### Panel grantiau

Bu panel arbenigol o uwch academyddion, cynrychiolwyr o gyrff cyllido’r DU, a swyddogion ymchwil yn trafod cyngor i ymchwilwyr gyrfa gynnar ar lunio ceisiadau llwyddiannus am grantiau.

### Enillydd y gystadleuaeth poster: iaith a’r cof

Cyflwyniad gweledol o’n defnydd o’r cof wrth ddysgu iaith dramor. Roedd poster Dr Giulia Bovolenta yn crisialu cwestiynau allweddol, dulliau, damcaniaethau a chanlyniadau ei hymchwil mewn ffordd resymegol a chlir.

Rydym yn ddiolchgar i Rwydwaith Ymchwilwyr Gyrfa Cynnar yr Academi Brydeinig am noddi’r gystadleuaeth llunio poster.





# Ein Taith Tuag at Degwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Rydym wedi ymrwymo i gefnogi a datblygu'r cyfoeth amrywiol o ymchwil ac arloesi sydd o fudd i Gymru. Mae amrywiaeth yn gwella gwybodaeth. Dyna pam ein bod yn credu yn effaith gadarnhaol y gwaith yma: nid yn unig o ran tegwch, ond er budd y gwyddorau, y celfyddydau a'r dyniaethau eu hunain.

**2010**
Sefydlu Cymdeithas Ddysgedig Cymru gyda 61 o Gymrodyr. Etholwyd 55 o ddynion a 6 o fenywod i'r Gymrodoriaeth.

**2014**
Cymeradwyo argymhellion y Gweithgor Cydbwysedd Rhywedd, dan arweiniad y Fonesig Athro Teresa Rees FLSW, gan wneud y broses o ethol yn fwy cynhwysol.

**2017**
Adolygiad Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant, o dan arweiniad yr Athro Terry Threadgold FLSW, yn arwain at arferion gwaith mwy cynhwysol, gan gynnwys cael gwared â'r uchafswm ar nifer y Cymrodyr.

**2021**
Cyngor a Phwyllgorau'r Gymdeithas yn llwyddo i sicrhau aelodaeth gytbwys o ran rhywedd; Sefydlu Gweithgor Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn dilyn arolwg cynhwysiant.

**Mawrth 2023**
Datganiad Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd yn amlygu'r cynnydd yn ffocws y Gymdeithas ar degwch.

**Ebrill 2023**
Y tro cyntaf i fwy na 50% o'r Cymrodyr newydd a etholir fod yn fenywod.

**Mai 2023**
Cynhwysiant wedi'i gynnwys fel prif gonglfaen strategaeth bum mlynedd newydd y Gymdeithas.

**Awst 2023**
Cymdeithas yn creu rôl Rheolwr Ymgysylltu Strategol newydd, â chyfrifoldeb penodol dros TAC.

**Ebrill 2024**
Mae traean o'r Cymrodyr newydd, a etholwyd gan y Gymrodoriaeth bresennol, yn dod o gefndiroedd lleiafrifol ethnig, y ganran fwyaf erioed.

**2025**
Parhau i roi ein cynllun TAC newydd ar waith i ymwreiddio tegwch yn ein prosesau ethol, mynd i'r afael â rhwystrau i ymuno â'r Gymrodoriaeth, a mynd ati'n weithredol i geisio enwebiadau mwy amrywiol.





# Cymdeithas Deg: O fudd i'r Gymdeithas Ddysgedig, O fudd i Gymru



Mae grŵp o Gymrodyr y Gymdeithas yn cyflwyno profiadau bywyd a safbwyntiau pwysig i waith y Gymdeithas ar degwch, amrywiaeth a chynhwysiant.

Nid oedd y daith o Irac i yrfa degawdau o hyd gyda'r GIG yn un rwydd. I Dr Layla Jader FLSW, roedd y profiad o chwalu'r rhwystrau hynny yn gymhelliant iddi ar y pryd, a dyna sy'n ei hysgogi nawr, mewn rôl bwysig gyda Chymdeithas Ddysgedig Cymru.

Daeth Dr Jader, a raddiodd o Ysgol Feddygol Baghdad, i'r DU fel myfyriwr ôl-raddedig ym 1978, cyn treulio 37 mlynedd yn gweithio i GIG Cymru ac yn y byd academaidd, yn arbenigo mewn geneteg meddygol a ffeibrosis systig.

Mae ei phrofiad fel mewnfudwr ac fel menyw, meddai, wedi rhoi'r sbardun iddi oresgyn yr heriau o'i blaen hi ei hun ac eraill. Nawr mae hi'n gobeithio y bydd gwaith Gweithgor Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant (TAC) y Gymdeithas yn denu mwy o bobl â phrofiadau tebyg i'r Gymrodoriaeth.

Yn ôl Dr Jader, "Mae'n bwysig [i'r Gymdeithas] myfyrio ar y gymdeithas rydym yn byw ynddi: pobl o gefndiroedd lleiafrifol ethnig, menywod, pobl sydd wedi dioddef anfantais".

"Maen nhw'n dod â ffordd ochrol o feddwl am bethau, sydd y tu hwnt i ystyriaethau'r brif ffrwd. Maen nhw'n bobl ddyfeisgar o'u hanfod, am eu bod eisiau llwyddo, mae ganddyn nhw'r sbardun, maen nhw'n gwneud popeth o fewn eu gallu i oresgyn eu rhwystrau."

Dyna pam mae Dr Jader yn credu ym mhwysigrwydd y Gweithgor y mae hi'n aelod ohono.

Mae cynllun TAC newydd y grŵp yn mynegi'n glir bod angen herio annhegwch systemig, a phob math o wahaniaethu ac ymyleiddio.

Mae'n cynnwys cyfres o dargedau tymor byr, canolig a hir. Mae'r rhain yn trafod popeth o hyrwyddo'r cynllun a'i nodau hyd at ddeall y ffactorau sy'n rhwystro mynediad i Gymrodoriaeth y Gymdeithas, ac at sicrhau bod yr holl ddigwyddiadau a gynhelir neu a gefnogir gan y Gymdeithas yn bodloni safonau cynhwysiant.

Bydd y buddion nid yn unig yn cael eu teimlo oddi mewn i Gymdeithas Ddysgedig Cymru, ond y tu hwnt iddi hefyd, wrth i'r Gymdeithas geisio ehangu ei heffaith ar Gymru.

Cafodd Dr Cameron Durrant FLSW ei fagu yng Nghasnewydd, ond mae bellach yn byw yn UDA. Mae'n sylfaenydd, cyfarwyddwr a Phrif Weithredwr sawl cwmni fferyllol, ac yn tynnu sylw at y ffaith bod perfformiad busnesau a chanddynt gyfarwyddwyr amrywiol ar eu byrddau yn rhagori ar berfformiad busnesau eraill.

Yn ôl Dr Cameron, mae gwaith y gweithgor TAC yn creu "effaith ehangach ymhell y tu hwnt i Gymdeithas Ddysgedig Cymru..mae hyn yn rhoi ffocws twf ar Gymru fel lle da i ddod, i weithio, i gymryd rhan, i symud y bêl. Rwy'n ei ystyried yn gymdeithasol flaengar ac yn rhywbeth y mae gwir angen inni fod yn eglur yn ei gylch."

Mae'r cynllun yn cael ei oruchwylio gan Helen Willson, Rheolwr Ymgysylltu Strategol yng Nghymdeithas Ddysgedig Cymru, a benodwyd i ysgogi gwelliannau o ran TAC. Yn ôl Helen, "Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae'r Gymdeithas wedi gwneud cynnydd go iawn ar ei thaith thuag at TAC."

"Rhoddodd sefydlu'r Gweithgor a chreu fy rôl y momentwm yr oedd ei angen ar y Gymdeithas, ac rydym bellach yn edrych yn frwdfrydig tua'r dyfodol."



Cymrodoriaeth

# Cymrodyr Er Anrhydedd

Rydym wedi bod yn ethol Cymrodyr Er Anrhydedd ers 2016 – academyddion, gwleidyddion a figurau blaenllaw o'r celfyddydau, y mae pob un ohonynt wedi gwneud cyfraniad hollbwysig i fyd addysg, ac wedi sefydlu enw da a statws byd-eang yn eu maes.

**"Rwy'n hynod o falch, ac anrhydedd o'r mwyaf yw cael fy ethol yn Gymrawd er Anrhydedd gyda Chymdeithas Ddysgedig Cymru. Mae cymdeithasau dysgedig yn chwarae rhan fwyfwy pwysig yn ein diwylliant modern am eu bod yn darparu gwybodaeth ddibynadwy y gall llywodraethau a dinasyddion ei defnyddio."**

Yr Athro William D. Phillips HonFLSW

Eleni, croesawyd tri Chymrawd Er Anrhydedd rhagorol newydd. **Syr Ian Diamond** yw Ystadegydd Cenedlaethol y DU ac mae wedi cyflawni nifer o rolau lefel uwch mewn llywodraeth ac addysg uwch. Peiriannydd mecanyddol yw'r **Athro Ann Dowling**, a'r athro benywaidd cyntaf mewn peirianneg ym Mhrifysgol Caergrawnt. Hi hefyd oedd y fenyw gyntaf i ddod yn Llywydd yr Academi Beirianneg Frenhinol. Ffisegwr o America â threftadaeth Gymreig yw'r **Athro William D. Phillips**. Ar y cyd â'i gydweithwyr, enillodd y Wobr Nobel ar gyfer ffiseg yn 1997. Mae ei waith ar ddefnyddio laserau i oeri a thrapio atomau wedi ysgogi datblygiadau mewn clociau atomig a chyfrifiadura cwantwm.







Cymrodoriaeth

# Cymrodyr a Etholwyd yn 2024

### Yr Athro Alka Ahuja
*MBE FRCPsych FLSW Seiciatrydd Plant a Phobl Ifanc Ymgynghorol, ac Arweinydd Clinigol Cenedlaethol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan*

### Dr Seema Arif
*MBE FRCR FLSW Oncolegydd Clinigol Ymgynghorol, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre*

### Dr Lloyd Bowen
*FRHistS FLSW Darllenydd, Hanes Modern Cynnar, Prifysgol Caerdydd*

### Yr Athro Edmund Burke
*FREng FIMA FORS FBCS FLSW Is-Ganghellor, Prifysgol Bangor*

### Yr Athro Erminia Calabrese
*FLSW Athro a Dirprwy Gyfarwyddwr Ymchwil, Canolfan Caerdydd ar gyfer Ymchwil a Thechnoleg Astroffiseg, Prifysgol Caerdydd*

### Yr Athro Anthony Cohn
*FREng FAAAI FEurAI FAISB FAAIA FIET FBCS FLSW Athro Rhesymu Awtomataidd, Prifysgol Leeds*

### Yr Athro Stephan Collishaw
*FAcSS FLSW Athro, Yr Ysgol Meddygaeth, Prifysgol Caerdydd*

### Yr Athro Angharad Davies
*FRCPath FRCP PFHEA FLSW Athro Clinigol a Microbiolegydd Meddygol Ymgynghorol Anrhydeddus, Prifysgol Abertawe*

### Yr Athro Indu Deglurkar
*FRCS FRCS(CTh) FLSW Llawfeddyg Cardiothorasig Ymgynghorol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac Athro Gwadd Anrhydeddus, Sefydliad Gwyddorau Meddygol Sri Venkateswara Prifysgol (SVIMS) Tirupati, India*

### Yr Athro Stephen Eales
*FRAS FLSW Athro Astroffiseg a Chyd-Gyfarwyddwr Canolfan Ymchwil a Thechnoleg Astroffiseg Caerdydd, Prifysgol Caerdydd*

### Dr Haydn Edwards
*FRSC FLSW Ymgynghorydd annibynnol; gynt yn Bennaeth a Phrif Weithredwr, Coleg Menai*

### Dr Aled Eirug
*FLSW Cadeirydd, Coleg Cymraeg Cenedlaethol*

### Yr Athro Sandra Esteves
*FLSW Athro mewn Technoleg Biobroses ar gyfer Casglu Adnoddau: Ynni a Deunyddiau a Chyfarwyddwr Canolfan Ragoriaeth Cymru ar gyfer Treulio Anerobig, Prifysgol De Cymru*

### Yr Athro Brian Ford-Lloyd
*FLSW Athro Emeritws, Prifysgol Birmingham*

### Yr Athro Graeme Garrard
*FRHistS FLSW Athro Gwleidyddiaeth, Prifysgol Caerdydd*

### Yr Athro Antonio Gil
*Pennaeth yr Ysgol Peirianneg Awyrofod, Sifil, Drydanol a Mecanyddol, Prifysgol Abertawe*

### Mr Sumit Goyal
*MBE FRCS (Edinburgh) FRCS (Glasgow) FLSW Llawfeddyg Oncoplastig Ymgynghorol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro*

### Yr Athro Peter Groves
*FRCP FLSW Cardiolegydd Ymgynghorol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac Athro Anrhydeddus, Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Queen Mary Llundain*

### Dr Amira Guirguis
*FRPharmS SFHEA FLSW Athro Cyswllt (Fferylliaeth), Cyfarwyddwr Rhaglen MPharm a Phennaeth Ymarfer Fferylliaeth, Prifysgol Abertawe*

### Yr Athro Sir Deian Hopkin
*FRHistS FRSA FCGI FLSW Llywydd, Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*

### Yr Athro William Housley
*DSc.Econ FAcSS FLSW Cadeirydd mewn Cymdeithaseg, Prifysgol Caerdydd*

### Yr Athro Michael Hughes
*DSc FLSW Athro Peirianneg Biofeddygol, Prifysgol Khalifa*

### Dr Savyasaachi Jain
*FHEA FLSW Darllenydd, Newyddiaduraeth a Dogfen, Prifysgol Caerdydd*

### Yr Athro Wendy Larner
*FACSS FRSNZ PFHEA FNZGS FLSW Llywydd ac Is-Ganghellor, Prifysgol Caerdydd*

### Yr Athro Yueng-Djern Lenn
*FLSW Athro Eigioneg Ffisegol, Prifysgol Bangor*

### Yr Athro Andrew Lewis
*SFHEA MISM FLSW Athro Cyfansoddi, Prifysgol Bangor*

### Yr Athro Yvonne McDermott Rees
*FHEA FLSW Athro'r Gyfraith, Prifysgol Abertawe*

### Yr Athro Paul Mealor
*CStJ CLJ FRSA FRSE FLSW Cyfansoddwr ac Athro Cyfansoddi, Prifysgol Aberdeen*

### Yr Athro Radhika Mohanram
*FLSW Athro Astudiaethau Ôl-drefedigaethol, Prifysgol Caerdydd*

### Yr Athro Aimee Morgans
*FREng FLSW Athro Thermohylifau, Coleg Imperial Llundain*

### Yr Athro Thomas O'Loughlin
*MRIA FSA FRHistS FSA Scot FLSW Athro Emeritws Diwinyddiaeth Hanesyddol, Prifysgol Nottingham*

### Yr Athro Chris Pearce
*FICE FLSW Dirprwy Bennaeth (Ymchwil a Chyfnewid Gwybodaeth), Prifysgol Glasgow*

### Yr Athro Clair Rowden
*FHEA FLSW Athro Cerddoriaeth, Dirprwy Bennaeth yr Ysgol Cerddoriaeth, Prifysgol Caerdydd*

### Yr Athro Roiyah Saltus
*FLSW Athro Cymdeithaseg, Prifysgol De Cymru*

### Yr Athro Iram Siraj
*OBE FAcSS FRSA DLetts FLSW Athro Addysg a Datblygiad Plant, Prifysgol Rhydychen*

### Yr Athro Mark Taubert
*FRCP FRCGP FFMLM FLSW Cyfarwyddwr Clinigol Meddygaeth Liniarol ac Athro Anrhydeddus, Prifysgol Caerdydd, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre*

### Yr Athro Andrew Thomas
*DEng FIMechE FHEA FLSW Athro a Phennaeth Ysgol Fusnes Aberystwyth, Prifysgol Aberystwyth*

### Yr Athro Agustin Valera-Medina
*FHEA FLSW Cyfarwyddwr, Sefydliad Arloesi Sero Net, Prifysgol Caerdydd*

### Yr Athro Andrew Westwell
*FLSW Athro Cemeg Feddyginiaethol ac Aelod Bwrdd Annibynnol (Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre), Prifysgol Caerdydd*

### Dr Eurwyn Wiliam
*FSA FLSW Ceidwad Emeritws, Amgueddfa Cymru*

### Yr Athro John G Williams
*CBE FRCP FLSW Athro Emeritws, Prifysgol Abertawe*

### Llŷr Williams
*Pianydd Cyngerdd*

### Yr Athro Rattan Yadav
*FLSW Athro Geneteg Planhigion, Prifysgol Aberystwyth*





> **"Yr hyn sy'n wirioneddol bwysig am gael cymuned weladwy fel Cymdeithas Ddysgedig Cymru [yw] casgliad o bobl sy'n fodlon sefyll o flaen eraill a dweud, 'Ydy, mae'n bwysig ein bod yn gwella bywyd deallusol Cymru, a hefyd ein bod yn rhoi yn ôl i wella addysg yng Nghymru yn fwy cyffredinol."**

Yr Athro Yueng-Djern Lenn FLSW, Prifysgol Bangor



> **"Fel cymdeithas sydd wedi ei lleoli yng Nghymru ac yn gwasanaethu Cymru, mae ei gwerthfawrogiad o'r Gymraeg a'i hymdrech i weithredu'n gwbl ddwyieithog yn un o'i nodweddion hynotaf. Mae'r profiad o fedru cyfathrebu yn Gymraeg – o dderbyn pob neges yn Gymraeg, gallu anfon negeseuon yn Gymraeg, a derbyn ymateb i bob cyfathrebiad yn Gymraeg – wedi cyfoethogi'r profiad o fod yn un o Gymrodorion y Gymdeithas ac yn dangos ei hymrwymiad diffuant i weithredu gofynion statudol y safonau iaith."**

Yr Athro Enlli Thomas FLSW, Prifysgol Bangor



> **"Mae gwaith y Gymdeithas i leoli Cymru yn y byd arloesi cenedlaethol a rhyngwladol yn dasg dyngedfennol ar adeg dyngedfennol. Mae dod i gysylltiad a rhai o'r arweinwyr agweddau a'r ffurfwyr barn gorau yng Nghymru a thu hwnt wedi bod yn brofiad cyfoethog sydd wedi talu ar ei ganfed i mi fel cymrawd newydd gyda'r Gymdeithas."**

Kellie Beirne FLSW, Cyfarwyddwr, Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Cymrodoriaeth

# Swyddogion a'r Cyngor

Cafodd y Gymdeithas ei hymgorffori fel Elusen Siarter Frenhinol yn 2015 (Rhif Elusen Gofrestredig: 1168622). Ein dogfennau llywodraethu presennol yw'r Siarter Frenhinol ac Is-ddeddfau. Mae'r rhain, ynghyd â Rheoloadau'r Gymdeithas, yn cyfansoddi ein hofferynnau llywodraethu.

## Swyddogion

### Llywydd

- Yr Athro Hywel Thomas

### Is-lywyddion

- Yr Athro Michael Charlton *(Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg, Mathemateg a Meddygaeth)*
- Yr Athro Helen Fulton *(Dyniaethau, Celfyddydau a Gwyddorau Cymdeithasol)*

### Trysorydd

- Yr Athro Terry Threadgold

### Ygrifennydd Cyffredinol

- Yr Athro Faron Moller

## Aelodau'r Cyngor

Yn ychwanegol at y Swyddogion, ffurfiodd y Cymrodyr canlynol Gyngor y Gymdeithas (bwrdd yr ymddiriedolwyr):

- Yr Athro Kirsti Bohata
- Dr Sarah Jane Clyburn
- Yr Athro Claire Gorrara
- Yr Athro Alma Harris
- Yr Athro Ieuan Hughes
- Yr Athro Ambreena Manji
- Yr Athro Iwan Morus
- Yr Athro Qiang Shen
- Yr Athro Alan Shore
- Yr Athro John V Tucker
- Yr Athro Carol Tully
- Yr Athro Meena Upadhyaya
- Dr Lynn Williams

Mae'r Cymrodyr niferus yn cefnogi'r Cyngor yn ei waith i lywodraethu'r Gymdeithas a'i goruchwylio'n strategol. Mae'r Cymrodyr hefyd yn eistedd ar ein pwyllgorau, ein gweithgorau a'n grwpiau gorchwyl a gorffen amrywiol.

## Adolygiad Ariannol

Bydd ffigurau ariannol 2023-24 yn cael eu cyhoeddi erbyn 30 Ebrill 2025 yn Adroddiad Blynyddol y Gymdeithas ar gyfer y Comisiwn Elusennau. Bydd hwn ar gael ar ein gwefan.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â lsw@wales.ac.uk

# Amcanion a Gweithgareddau

Amcan elusennol y Gymdeithas yw: "hyrwyddo addysg, dysg, astudiaeth academaidd a gwybodaeth er budd y gymuned, ac yn sgil hynny, cyfrannu at ddatblygiad gwyddonol, diwylliannol, cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd yng Nghymru a thu hwnt."

Cenhadaeth ein strategaeth:

Fel Academi Genedlaethol Cymru, byddwn yn harneisio arbenigedd, profiad a chysylltiadau amlddisgyblaethol ein Cymrodoriaeth i hyrwyddo a datblygu cymuned ymchwil ac arloesi Cymru, ac i gefnogi'r defnydd o ymchwil ragorol ac amrywiol i ddatrys yr heriau o flaen Cymru ac o flaen y byd.

Byddwn yn gwneud hyn trwy:

- Gael effaith: Sicrhau bod llunwyr polisi a dylanwadwyr yn cydnabod perthnasedd y Gymdeithas, gan ein croesawu a'n defnyddio fel ffynhonnell o gyngor arbenigol annibynnol y gellir ymddiried ynddo, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, i ganfod atebion i heriau'r byd go iawn.
- Meithrin cydweithio: Creu a chryfhau cysylltiadau amlddisgyblaethol, o fewn Cymru a thu hwnt, i wireddu buddion o sylfaen ymchwil ac arloesi Cymru, gan gynorthwyo drwy hynny i fynd i'r afael â materion cenedlaethol a byd-eang.
- Tyfu talent: Eiriol dros ddiwylliant amrywiol a bywiog ymchwil Cymru a chefnogi amgylchedd sy'n gwneud Cymru yn lle gwych i fod yn ymchwilydd, fel y gallwn helpu i gadw a thyfu ein sylfaen wybodaeth bresennol a datblygu ein darpar arbenigwyr.
- Hyrwyddo cynhwysiant: Adeiladu Cymdeithas groesawgar y mae ei Chymrodyr, a'u cyfraniadau, yn cynrychioli amrywiaeth ein cenedl; a gweithio mewn partneriaeth ag eraill i hyrwyddo cynhwysiant

Rydym wedi hyrwyddo ein pwrpas cyfreithiol drwy wireddu ein cenhadaeth, yn sgil cyflawni ein Strategaeth 2023-2028. Mae ein Cyngor yn cytuno ar raglen o weithgareddau y maent yn eu hystyried yn briodol er mwyn cyflawni ein blaenoriaethau strategol:

1. Cyfrannu at ddatrysiadau polisi pwysig drwy roi cyngor annibynnol a hwyluso cyfnewid gwybodaeth.
2. Creu Amgylchedd sy'n cefnogi arbenigwyr Cymru - yn y presennol a'r dyfodol.
3. Datblygu cymrodoriaeth fwy amrywiol a gweithgar.
4. Datblygu ein sefydliad.

Asesir llwyddiant yn seiliedig ar y meini prawf mwyaf priodol ar gyfer y gweithgaredd e.e. adborth gan y rhai a oedd yn bresennol.

Cynhelir arolygon rhanddeiliaid, a diffinnir llwyddiant yn y pen draw yn ôl parodrwydd Cymrodyr, prifysgolion Cymru a Medr (Cyngor Cyllido Addysg Uwch (CCAUC) gynt) i gyllido a chymryd rhan mewn gweithgareddau yn y dyfodol.

## Budd Cyhoeddus

Mae'r ymddiriedolwyr wedi rhoi sylw priodol i ganllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Elusennau wrth benderfynu pa weithgareddau y dylai'r elusen eu cynnal.

# Manylion Gweinyddol

Enw'r Elusen:
Cymdeithas Ddysgedig Cymru

Enw Saesneg yr Elusen:
The Learned Society of Wales

Rhif Cofrestru'r Elusen:
1168622

Prif Swyddfa a Chyfeiriad Gweithredol:
Cofrestrfa Prifysgol Cymru
Rhodfa Brenin Edward VII
Caerdydd CF10 3NQ

Gwefan:
www.cymdeithasddysgedig.cymru
/www.learnedsociety.wales

Archwilwyr Ariannol Annibynnol:
Advantage Accountancy & Advisory Ltd, Yr Ail Lawr, Avalon House, 5-7 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9HA

Bancwyr:
HSBC (UK) Limited, 56 Stryd y Frenhines, Caerdydd, CF10 2PX

Prif Weithredwr:
Olivia Harrison

Clerc:
Dr Haydee Guadalupe Martinez Zavala

# Strwythur, Trefniadau Llywodraethu a Rheolaeth

Cafodd y Gymdeithas ei hymgorffori fel Elusen Siarter Frenhinol yn 2015 (Rhif Elusen Gofrestredig: 1168622). Ein dogfennau llywodraethu cyfredol yw'r Siarter Frenhinol a'r Is-ddeddfau. Y rhain, ynghyd â Rheoliadau'r Gymdeithas, yw ein hofferynnau llywodraethu.

Aelodau'r Gymdeithas yw ei Chymrodyr, sy'n cael eu hethol gan y Cymrodyr presennol drwy broses flynyddol (gweler tudalen 23 am restr o'r rhai a etholwyd yn 2024). Ceir dros 700 o Gymrodyr ar hyn o bryd. Mae'r Gymdeithas yn cynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, sy'n agored i bob Cymrawd ac yn cynnwys cyflwyno a mabwysiadu'r cyfrifon sydd wedi'u harchwilio'n annibynnol.

## Y Cyngor

Corff llywodraethu'r Gymdeithas yw'r Cyngor. Mae'n pennu strategaeth a gweithgareddau'r elusen, yn sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon o'i hadnoddau, ac yn goruchwylio ei materion ariannol yn unol â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol. Aelodau'r Cyngor yw ymddiriedolwyr y Gymdeithas i ddibenion cyfraith elusennau.

Mae gan y Cyngor 17 aelod, pob un ohonynt yn Gymrodyr y Gymdeithas. Mae rheoliadau'n sicrhau cydbwysedd o aelodau o'r tri chategori o Gymrodyr:

- Y Dyniaethau, Y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol.
- Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg, Mathemateg a Meddygaeth.

Diwydiant, Masnach, Y Celfyddydau a'r Proffesiynau. Pan fydd swydd wag yn dod i'r amlwg, gall unrhyw Gymrawd wneud cais i ymuno â'r Cyngor. Yna caiff enwau'r ymgeiswyr a datganiadau personol o'u sgiliau a'u harbenigedd eu cyflwyno i'r Gymrodoriaeth gael pleidleisio drostynt. Tymor y swydd yw tair blynedd, a gellir adnewyddu'r swydd am dair blynedd arall. Ar ôl gwasanaethu am ddau dymor, ni chaiff Cymrodyr ymgeisio eto nes i isafswm o flwyddyn fynd heibio.

Mae'r Gymdeithas yn cadw cofrestr o fuddiannau ar gyfer holl aelodau'r Cyngor a'r staff, ac mae'n ofynnol i aelodau'r Cyngor gadw at God Ymddygiad y Gymdeithas. Bydd pob aelod o'r Cyngor yn rhoi o'i amser yn wirfoddol ac nid yw'n derbyn unrhyw fuddion gan yr elusen Bydd unrhyw dreuliau a gaiff eu had-hawlio gan yr elusen wedi'u nodi yn y Cyfrifon.

## Sefydlu a Darparu Gwybodaeth i'r Ymddiriedolwyr

Drwy gydol y flwyddyn bydd aelodau'r Cyngor yn derbyn gwybodaeth berthnasol yn rheolaidd a, lle bo angen, yn cael arweiniad ar eu cyfrifoldebau o dan Ddeddf Elusennau 2011. Trafodir materion llywodraethu fel eitem safonol ar agendâu cyfarfodydd y Cyngor. Darperir copïau o'r holl ddogfennau perthnasol i aelodau'r Cyngor i'w helpu i gyflawni eu cyfrifoldebau. Mae ganddynt brofiad eang o lywodraethu a gweinyddu elusennau, ac maent oll yn gyfarwydd ag amcanion, strategaeth a gweithgareddau'r Gymdeithas

## Pwyllgorau'r Cyngor

Mae Siarter Frenhinol y Gymdeithas yn rhoi grym i'r Cyngor greu pwyllgorau llywodraethu. Dyma'r pwyllgorau cyfredol
Y Pwyllgor Gweithredol, Y Pwyllgor Dibenion Cyffredinol, Y Pwyllgor Cyllid, Pwyllgor y Gymrodoriaeth, y Pwyllgor Goruchwylio Llywodraethu a'r Pwyllgor Adnoddau Dynol. Mae aelodau'r Pwyllgorau wedi'u
rhestru ar wefan y Gymdeithas.

Yn ogystal â'u cyfrifoldebau parhaus o ran goruchwylio strategaeth, gweithgareddau a chyllid y Gymdeithas, cyflawnodd y Cyngor a'r Pwyllgorau waith pellach i ymgorffori Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant ym mhrosesau cymrodoriaeth, gweithredol ac ariannol y Gymdeithas, gyda'r nod o hyrwyddo Cymdeithas sy'n fwy cyfartal.

Mae'r Gymdeithas yn cadw Cynllun Dirprwyo a gymeradwyir yn ffurfiol gan y Cyngor bob blwyddyn i gyfeirio penderfyniadau, er enghraifft i nodi pa benderfyniadau a gymerir gan ymddiriedolwyr yr elusen, a pha rai a ddirprwyir i'r Pwyllgorau a'r staff.

## Rheoli Risg

Mae'r Gymdeithas yn mynd ati'n weithredol i fonitro a cheisio lliniaru pum prif fath o risg: staffio, gweithredol, enw da, ariannol a llywodraethu. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod prosesau rheoli risg yn ddigonol ac
yn effeithiol, ac mae rhai meysydd risg wedi'u dirprwyo i'w hadolygu gan bwyllgorau priodol.

## Y Prif Risgiau a'r Elfennau o Ansicrwydd sydd o Flaen y Gymdeithas

Isod ceir disgrifiad o'r prif risgiau a'r elfennau o ansicrwydd sydd o flaen y Gymdeithas, fel y cawsant eu nodi gan ymddiriedolwyr yr elusen, ynghyd â chrynodeb o'r cynlluniau a'r strategaethau ar gyfer rheoli'r risgiau hynny.

| Prif Risg | Mesurau Lliniaru |
|---|---|
| Bod y strwythur Llywodraethu yn methu â darparu'r lefel na'r amrywiaeth gywir o arbenigedd i wneud penderfyniadau a rhedeg y Gymdeithas yn effeithiol. | • Swyddogion ac aelodau'r Cyngor i oruchwylio'r broses ethol.<br>• Disgrifiadau rôl clir ar gyfer Swyddogion ac aelodau'r Cyngor.<br>• Gweithredu'r Adolygiad Effeithiolrwydd Llywodraethu.<br>• Parhau i alluogi Cymrodyr ymroddgar i gyfrannu at waith y Gymdeithas.<br>• Darparu hyfforddiant sefydlu a hyfforddiant a gweithdai parhaus o'r ffynonellau priodol. |
| Nad yw'r Gymdeithas yn cyflawni ei chenhadaeth na'i strategaeth. | • Cynllun Strategol a chynllunio ariannol (gan gynnwys cyllideb flynyddol).<br>• Bod prosesau cynllunio ariannol ar waith, gan gynnwys adolygiadau rheolaidd o berfformiad yn erbyn y gyllideb.<br>• Mae gan y Gymdeithas system o bwyllgorau sy'n adrodd i'r Cyngor ac sy'n gyfrifol am agweddau allweddol ar waith y Gymdeithas.<br>• Y Swyddogion i gyfarfod yn rheolaidd a'r Swyddogion i gyfathrebu'n rheolaidd â'r Cyngor.<br>• Adolygiad blynyddol o'r Cynllun Strategol a blaenoriaethau'r Gymdeithas. |
| Cyflogeion; Nad yw staff talentog yn cael eu recriwtio, eu meithrin a'u cadw. | • Mae ymarfer meincnodi cyflogau ar waith drwy ddefnyddio graddfeydd cyflog Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.<br>• Rhaglen hyfforddi bwrpasol ar waith ar gyfer yr holl staff. |
| Cynaliadwyedd ariannol: Bod cyllid yn cael ei ostwng neu'n aros yn sefydlog gan gael effaith negyddol ar allu’r Gymdeithas i gyflawni ei hamcanion. Gallai gostyngiad mewn incwm ddeillio ostyngiad mewn cyllid gan sefydliadau ac aelodau. | • Cryfhau cysylltiadau presennol a meithrin perthnasoedd newydd, gan geisio sicrhau cyllid ychwanegol ac amrywio ffynonellau cyllid.<br>• Trefniadau gwell ar gyfer cynllunio ariannol a chysylltiad agosach rhwng cyllidebau blynyddol a strategaeth y sefydliad.<br>• Adolygiad parhaus o'r cyd-destun ariannu a ffrydiau incwm ac adroddiadau rheolaidd ar hynny i'r Cyngor. |
| Amrywiaeth: Cynrychiolaeth gul oherwydd diffyg amrywiaeth o fewn y Gymrodoriaeth, ar y Cyngor ac ymhlith ymgeiswyr am grantiau. | • Agenda weithredol i ddylanwadu'n gadarnhaol ar grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli, ac i annog eu hymgysylltiad.<br>• Darparu hyfforddiant rhagfarn ddiarwybod i rai sydd mewn sefyllfa i wneud penderfyniadau.<br>• Ystyriaeth barhaus o arbenigwyr mewn meysydd perthnasol, ac ymgysylltu'n barhaus â'r arbenigwyr hynny. |
| Gall prosesau mewnol aneffeithlon, seilwaith aneffeithiol, cyfathrebu aneffeithiol, neu staffio annigonol amharu ar weithrediadau beunyddiol y Gymdeithas. | • Adolygiadau rheolaidd o brosesau mewnol i sicrhau effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.<br>• Cynnal a chadw a diweddaru systemau TG a chyfleusterau swyddfa yn rheolaidd, gan sicrhau bod yr holl offer, meddalwedd a mannau cyfarfod yn weithredol ac yn addas at y diben.<br>• Sianelau cyfathrebu clir rhwng Swyddogion, y Cyngor a'r staff, gyda diweddariadau rheolaidd a dolenni adborth.<br>• Cryfhau cydweithio ar draws timau drwy gynnal cyfarfodydd a phrosiectau rheolaidd.<br>• Sefydlu cynllun wrth gefn ar gyfer aflonyddwch gweithredol, gan sicrhau bod prosesau allweddol yn parhau. |

## Lefelau Staffio

Mae lefel staffio'r Gymdeithas yn parhau i fod yn fach o'i chymharu ag academïau cenedlaethol eraill y DU. Fodd bynnag, wrth i'r sefydliad ehangu gyda chymorth grant, ac wrth i'r angen am staff ychwanegol i reoli gweithgareddau cysylltiedig dyfu, mae'r Pwyllgor Adnoddau Dynol a'r Cyngor wedi adolygu ac ad-drefnu'r fframwaith staffio. Yn sgil yr ad-drefnu hwn, mae graddfeydd a bandiau cyflog wedi cael eu cyflwyno ar gyfer rolau, fel yr amlinellir isod:

- **Gradd G:** Prif Weithredwr
- **Gradd F:** Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus, Rheolwr Ymgysylltu Strategol
- **Gradd E:** Clerc, Rheolwr y Rhaglen Datblygu Ymchwilwyr
- **Gradd D:** Swyddog Cyfathrebu, Swyddog y Gymrodoriaeth
- **Gradd C:** Swyddog Cyllid, Swyddog Gweithrediadau, Swyddog y Rhaglen Datblygu Ymchwilwyr
- **Gradd B:** Cynorthwyydd Digwyddiadau

Y Prif Weithredwr yw unig weithiwr rheoli allweddol yr elusen. Yn ystod y flwyddyn, roedd y tîm ar gyfartaledd yn cynnwys 7 aelod staff amser llawn a 4 aelod staff rhan-amser, sy'n gyfwerth â chyfanswm o 7.9 o swyddi cyfwerth ag amser llawn (CALI), ac ystyried y bylchau staffio byrdymor y sgil recriwtio. Mae cyflogau staff o fewn band ar gyfer pob gradd, a bennir gan y Pwyllgor Adnoddau Dynol a'r Pwyllgor Cyllid, ac maent yn seiliedig ar bwyntiau colofn gyflog Prifysgol Cymru.

**Mae gan yr elusen gwmni segur, sef Cymdeithas Ddysgedig Cymru, a ymgorfforwyd ar 18 Mai 2010 Rhif Cwmni 7256948.**

## Y Berthynas ag Elusennau Eraill

Nid yw'r Gymdeithas yn gysylltiedig â rhwydwaith ehangach na grŵp ymbarél, felly Cyngor y Gymdeithas sy'n penderfynu ar y polisïau gweithredu a fabwysiedir gan yr elusen. Serch hynny, mae'r tîm staff yn gweithio'n agos gydag Academïau Cenedlaethol a Chymdeithasau Dysgedig eraill i sicrhau bod arfer gorau yn cael ei rannu â'r Cyngor. Lle mae gan y Gymdeithas berthnasoedd ag elusennau eraill, er enghraifft SWIEET, cytunir ar amcanion elusennol cyffredin wrth gyflawni gweithgareddau.

## Buddsoddiadau Ariannol

Mae'r Gymdeithas yn cynnal Polisi Buddsoddi sydd wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor sy'n pennu strategaeth fuddsoddi ac yn goruchwylio perfformiad buddsoddiadau'r Gymdeithas. Mae'r polisi hwn wedi'i osod yng nghyd-destun portffolio buddsoddi cymedrol. Y nod wrth reoli'r portffolio hwnnw yw sicrhau'r elw mwyaf posibl i'r Gymdeithas a lleihau'r posibilrwydd o wrthdaro rhwng ein hamcanion fel elusen a'n dewis o fuddsoddiadau. Y prif amcan yw cynhyrchu incwm, a'r ail amcan yw cynhyrchu twf cyfalaf.

# Adolygiad Ariannol

Roedd hon yn flwyddyn gadarnhaol arall i'r Gymdeithas o safbwynt ariannol, ac roeddem yn falch o gadw cefnogaeth holl brifysgolion Cymru. Drwy gydnabyddiaeth ariannol o'n rôl fel yr academi genedlaethol, bu modd inni gynnal yr holl weithgareddau yr oeddem wedi'u cynllunio.

Mae'r rôl hanfodol y mae ymchwil yn ei chwarae wrth gefnogi ffyniant Cymru wedi'i chydnabod drwy'r bartneriaeth rhwng CCAUC (Medr bellach) a Chymdeithas Ddysgedig Cymru. Ym mis Gorffennaf 2023, llofnododd CCAUC a Chymdeithas Ddysgedig Cymru femorandwm cyd-ddealltwriaeth Partner. Roedd hyn yn adeiladu ar y bartneriaeth lwyddiannus bresennol a sefydlwyd yn 2021 ac yn creu'r sylfaen barhaus i'r partneriaid weithio arni. Roedd hyn yn cynnwys ymrwymiad gan CCAUC i ddarparu cyllid creiddiol blynyddol (cyllid anghyfyngedig) i'r Gymdeithas o 2023/24 ymlaen. Cytunir ar y swm yn flynyddol ac yn 2023/24 dyfarnwyd £275,445 i'r Gymdeithas, cynnydd o fwy na £100k o'i gymharu â 2022/2023.

Roedd gan y Gymdeithas incwm o £639,365 a gwariant o £645,324. Mae'r fantolen yn dangos ein bod wedi cario cronfa gyfan o £447,485 ymlaen ar ddiwedd y cyfnod, yn cynnwys cronfeydd anghyfyngedig o £447,485 a chronfeydd cyfyngedig o £0.


Adroddodd y Gymdeithas ddiffyg o £5,959 (cyn elw ar fuddsoddiadau). Mae hyn yn cynnwys gwarged anghyfyngedig o £8,938, a diffyg cyfyngedig o £14,897. Ar ôl enillion ar fuddsoddiadau (£12,765) roedd y gwahaniaeth net mewn cronfeydd o 2022/23 i 2023/24 yn gynnydd o £6,806.

Drwy gydol y flwyddyn, chwaraeodd ein Cyngor a'n Pwyllgor Cyllid ran weithredol ym mholisïau cyllidebu, rheoli ariannol a buddsoddi'r Gymdeithas. Ym mis Mawrth 2023, comisiynodd y Gymdeithas adolygiad allanol o'i systemau a'i rheolaethau ariannol. Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi goruchwylio'r broses o weithredu'r argymhellion yn llwyddiannus.

## Incwm

Cyfanswm yr incwm oedd £639,365, sy'n gynnydd o'r £548,871 a gafwyd yn y flwyddyn flaenorol. Yn ogystal â'r £275,445 a ddyfarnwyd gan CCAUC, mae'r prifysgolion yn darparu un o'n prif ffynonellau incwm, gyda'u grantiau cyfunol yn creu cyfanswm o £183,079. Cyfanswm ffioedd derbyn a thanysgrifio ein Cymrodyr eleni oedd £113,204. Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn parhau i roi cymorth hael mewn nwyddau i'r Gymdeithas, gan gynnwys gofod swyddfa, cyflogres a gwasanaethau TG.

## Ffynonellau Incwm



## Gwariant


Cyfanswm y gwariant eleni oedd £645,324. Ein gwariant ar weithgareddau (er enghraifft, digwyddiadau, byrddau crwn, datblygu ein Cymrodoriaeth, dyfarnu Medalau a'r Rhwydwaith Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar) oedd £411,299 (63.74% o'r gwariant). Ein prif gategorïau gwariant eraill oedd datblygu polisi cyhoeddus (£98,480 – 15.26%), cyhoeddiadau (£90,534 -14.03%) a llywodraethu (£45,011– 6.35%).

## Cronfeydd wrth gefn

Ar 31 Gorffennaf 2024, roedd y Gymdeithas yn dal cronfeydd wrth gefn rhydd ac ynddynt £447,485 (2023: £440,679). Ni newidiwyd ein polisi ar gyfer cronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn. Rydym yn cadw digon o arian anghyfyngedig i dalu o leiaf chwe mis o'n costau craidd (£267,725), gan sicrhau y gallwn dalu am unrhyw gynnydd sydyn mewn treuliau, treuliau untro heb eu cynnwys yn y gyllideb, neu golled annisgwyl mewn cyllid. Mae gweddill ein harian wrth gefn (£179.760) wedi'i gynnwys yng Nghronfa Buddsoddi Strategol (SDF) y Gymdeithas.

Ym mis Gorffennaf 2023, cytunodd y Cyngor i ddefnyddio rhywfaint o’r SDF i fuddsoddi mewn swyddi staff newydd i gefnogi gwaith i gyflawni strategaeth newydd y Gymdeithas. Fodd bynnag, oherwydd bylchau staffio eraill yn ystod 2023/24 ni ddefnyddiwyd yr SDF i'r diben hwnnw. Gan hynny, drwy ddefnyddio cronfeydd buddsoddi a chyfrifon cynilo enillion sefydlog, helpodd yr SDF i gynhyrchu ffrwd gymedrol o incwm ychwanegol i'w ailfuddsoddi.

## Categorïau Gwariant



# Datblygiadau yn y Dyfodol

Eleni cyflawnwyd blwyddyn gyntaf strategaeth pum mlynedd newydd y Gymdeithas, a ddaeth i rym ym mis Mai 2023 a bydd yn parhau hyd at 2028. Mae ein Cymrodyr, arweinwyr ac arbenigwyr o addysg uwch a bywyd dinesig, pob un â chysylltiad â Chymru, yn greiddiol i'r gwaith hwn. Mae eu cysylltiadau, eu harbenigedd a'u profiad wedi bod yn hollbwysig er mwyn cyflawni'r strategaeth newydd ac wrth i Gymdeithas Ddysgedig Cymru anelu i sicrhau bod ymchwil yng Nghymru yn cyfrannu at genedl lewyrchus, sy'n gallu ymdopi â heriau lleol a byd-eang.

Gan hynny, yn 2024/25 byddwn yn parhau i weithio i gynyddu ein hymgysylltiad ag amrywiaeth ehangach o Gymrodyr i gynyddu effaith ein gwaith Datblygu Ymchwilwyr, ein gwaith Polisi, a'n trefniadau Llywodraethu. Mae cytundeb partneriaeth 2024/25 â Medr (y cytunwyd arno ym mis Gorffennaf 2024) yn cefnogi hyn drwy gytundeb ariannu o £316,000 lle rhoddir pwyslais ychwanegol ar feithrin partneriaethau â rhanddeiliaid anacademaidd.

Mae'r Cyngor wedi adolygu'r cynllun cyflawni sy'n cyd-fynd â'r strategaeth newydd er mwyn diwygio a chytuno ar gynllun cyflawni ar gyfer blwyddyn 2 (24/25). Mae hyn yn cynnwys y gweithgareddau y bydd y Gymdeithas yn canolbwyntio arnynt yn 24/25 a thros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Mae'r rhain yn cynnwys:

- gweithio gyda'r llywodraeth, diwydiant, sefydliadau'r sector cyhoeddus ac eraill, i gynyddu dealltwriaeth llunwyr polisi o bwysigrwydd ymchwil ragorol.
- defnyddio Cymrodyr y Gymdeithas i gefnogi’r cenedlaethau nesaf o ymchwilwyr, drwy hyrwyddo cydweithredu rhwng ymchwilwyr ar bob cam o’u gyrfa ac ym mhob sector.
- gwella record y Gymdeithas o ran amrywiaeth, ecwiti a chynhwysiant, i greu sefydliad croesawgar a chynhwysol sy'n rhoi lais i grwpiau tangynrychioledig.

**Mae datganiadau ariannol llawn y Gymdeithas wedi cael eu harchwilio'n annibynnol.**

# Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102: Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol y Deyrnas Unedig)

Mae'r gyfraith sy'n berthnasol i elusennau yng Nghymru a Lloegr yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r elusen ac o incwm a gwariant yr elusen ar gyfer y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr:

- ddethol polisïau cyfrifyddu addas ac yna'u cymhwyso'n gyson;
- dilyn y dulliau a'r egwyddorion yn y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir (SORP) ar gyfer Elusennau;
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon cyfrifyddu sy'n rhesymol ac yn ddoeth;
- datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys ai peidio, yn amodol ar unrhyw wyriadau perthnasol a ddatgelwyd ac a esboniwyd yn y datganiadau ariannol, a
- pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol onid yw'n amhriodol tybio y bydd yr elusen yn parhau â'i busnes.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n datgelu, gyda chywirdeb rhesymol ac ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol yr elusen, ac yn eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Elusennau 2011, Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 a darpariaethau'r weithred ymddiriedolaeth/cyfansoddiad. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac anghysondebau eraill.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gynnal a chadw a chywirdeb yr elusen a'r wybodaeth ariannol sydd wedi'i chynnwys ar wefan yr elusen. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n rheoli'r broses o baratoi a lledaenu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Cymeradwywyd yr adroddiad gan y Cyngor ar 12 Mawrth 2025 a'i lofnodi ar ei ran gan:

**Yr Athro Hywel Thomas** (Llywydd)

**Sarah Jane Clyburn** (Trysorydd)

**Dyddiad:** 12 Mawrth 2025

# Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol

Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol i ymddiriedolwyr Cymdeithas Ddysgedig Cymru

Rwy'n adrodd i'r ymddiriedolwyr ar fy archwiliad o gyfrifon Cymdeithas Ddysgedig Cymru (yr Elusen) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024. Mae'r adroddiad wedi'i gynnwys ar dudalennau 38 i 57.

Cyfrifoldebau a sail yr adroddiad

Fel ymddiriedolwyr yr Elusen, rydych chi'n gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011 ('y Ddeddf').

Rwy'n adrodd ar fy archwiliad o gyfrifon yr Ymddiriedolwr a gynhaliwyd o dan adran 145 o Ddeddf 2011, ac wrth gynnal fy archwiliad rwyf wedi dilyn yr holl Gyfarwyddiadau perthnasol a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) y Ddeddf.

Datganiad yr archwiliwr annibynnol

Gan fod incwm gros yr elusen yn fwy na £250,000 rhaid i'ch archwiliwr fod yn aelod o gorff a restrir yn adran 145 o Ddeddf 2011. Rwy'n cadarnhau fy mod yn gymwys gynnal yr archwiliad gan fy mod yn aelod o Gymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig, sy'n un o'r cyrff rhestredig.

Rwyf wedi cwblhau fy archwiliad. Rwyf yn cadarnhau nad oes unrhyw faterion o bwys wedi dod i'm sylw yn gysylltiedig â'r archwiliad sy'n rhoi rheswm imi gredu'r canlynol mewn unrhyw ffordd berthnasol:

1. na chadwyd cofnodion cyfrifyddu mewn perthynas â'r Ymddiriedolaeth fel sy'n ofynnol yn adran 130 y Ddeddf; neu
2. nad yw'r cyfrifon yn cyd-fynd â'r cofnodion hynny; neu
3. nad yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â'r gofynion cymwys ynghylch ffurf a chynnwys cyfrifon a nodir yn Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 ac eithrio unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn rhoi 'darlun cywir a theg', nad yw'n fater a ystyrir fel rhan o archwiliad annibynnol.

Nid oes gennyf unrhyw bryderon ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn cysylltiad â'r archwiliad y dylid tynnu sylw atynt yn yr adroddiad hwn er mwyn galluogi dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

**Stephen John Bickerton FCCA**
**Advantage Accounting & Advisory Ltd**
Avalon House
5-7 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9HA
**Dyddiad:** 12 Mawrth 2025

# Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol

(Gan gynnwys y CYFRIF INCWM A GWARIANT)
AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 GORFFENNAF 2024

| | Nodyn | Cronfeydd anghyfyngedig £ | Cronfeydd cyfyngedig £ | Cyfanswm y Cronfeydd 2024 £ | Cyfanswm y Cronfeydd 2023 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Incwm a gwaddolion o: | | | | | |
| Rhoddion ac ewyllysiau | 3 | 137,531 | 14,000 | 151,531 | 131,586 |
| Gweithgareddau Elusennol | 4 | 453,524 | 24,422 | 477,946 | 408,091 |
| Buddsoddiadau | 5 | 9,888 | - | 9,888 | 9,194 |
| *Cyfanswm incwm a gwaddolion* | | 600,943 | 38,422 | 639,365 | 548,871 |
| Gwariant ar: | | | | | |
| Gweithgareddau elusennol | 6 | 592,005 | 53,319 | 645,324 | 569,581 |
| *Cyfanswm y gwariant* | | 592,005 | 53,319 | 645,324 | 569,581 |
| Elw/(colled) net ar fuddsoddiadau | 12 | 12,765 | - | 12,765 | (8,619) |
| *Symudiad net mewn cronfeydd* | | 21,703 | (14,897) | 6,806 | (29,329) |
| Cysoni Cronfeydd | | | | | |
| Cyfanswm y cronfeydd a ddygwyd ymlaen | 17/18 | 425,782 | 14,897 | 440,679 | 470,008 |
| *Cyfanswm y cronfeydd a gariwyd ymlaen* | 17/18 | 447,485 | 0 | 447,485 | 440,679 |

Mae'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn cynnwys yr holl enillion a cholledion a gydnabuwyd yn ystod y flwyddyn.

Mae'r holl adnoddau a ddaeth i mewn ac a wariwyd yn deillio o weithgareddau parhaus.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 41 i 55 yn rhan o'r datganiadau ariannol.

# Y Fantolen

**AR 31 GORFFENNAF 2024**

| | Nodyn | 2024 £ | | 2023 £ | |
|---|---|---|---|---|---|
| Asedau Sefydlog: | | | | | |
| Asedau diriaethol | 10 | 4,845 | | 1,034 | |
| Asedau anniriaethol | 11 | - | | 2,461 | |
| Buddsoddiadau | 12 | 139,051 | | 121,210 | |
| Cyfanswm yr Asedau Sefydlog | | 143,896 | | 124,705 | |
| Asedau Cyfredol | | | | | |
| Dyledwyr | 13 | 61,641 | | 42,831 | |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | | 392,578 | | 328,130 | |
| Cyfanswm Asedau Cyfredol | | 454,219 | | 370,961 | |
| Rhwymedigaethau | | | | | |
| Credydwyr: Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 14 | (150,630) | | (54,987) | |
| Asedau cyfredol net | | | 303,589 | | 315,974 |
| Asedau Net | | | 447,485 | | 440,679 |
| Cronfa'r elusen: | | | | | |
| Cronfeydd incwm cyfyngedig | 17 | | 0 | | 14,897 |
| Cronfeydd anghyfyngedig | 18 | | 447,485 | | 425,782 |
| Cyfanswm cronfeydd elusennol | | | 447,485 | | 440,679 |

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar 12 Mawrth 2025

**Yr Athro Hywel Thomas**
(Y Llywydd)

**Sarah Jane Clyburn**
(Y Trysorydd)

Mae'r nodiadau ar dudalennau 41 i 55 yn rhan o'r datganiadau ariannol.

# Datganiad Llif Arian

**AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 GORFFENNAF 2024**

| | Nodyn | 2024 £ | 2023 £ |
|---|---|---|---|
| Arian parod net a ddarparwyd drwy/(a ddefnyddiwyd mewn) (g)weithgareddau gweithredol | 22 | 64,792 | (46,739) |
| *Llifoedd arian o weithgareddau buddsoddi:* | | | |
| Difidendau, llog a rhenti o fuddsoddiadau | | 9,888 | 9,194 |
| Prynu eitemau diriaethol ac anniriaethol | | (5,156) | - |
| Prynu buddsoddiadau | | (5,076) | (6,392) |
| Arian parod net a ddarparwyd drwy (a ddefnyddiwyd mewn) (g)weithgareddau buddsoddi | | (344) | 2,802 |
| Newid mewn arian parod a gwerthoedd sy'n cyfateb i arian parod yn y cyfnod adrodd | | 64,448 | (43,937) |
| Arian parod a gwerthoedd sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r cyfnod adrodd | | 328,130 | 372,067 |
| Arian parod a gwerthoedd sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y cyfnod adrodd | | 392,578 | 328,130 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 41 i 55 yn rhan o'r datganiadau ariannol.

# Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

## 1 . Polisïau Cyfrifyddu

### Gwybodaeth am Elusennau

Mae Cymdeithas Ddysgedig Cymru yn elusen gofrestredig, a ymgorfforwyd drwy Siarter Frenhinol yn 2015. Ei phrif swyddfa yw Cofrestrfa Prifysgol Cymru, Rhodfa Brenin Edward VII, Caerdydd, CF10 3NS.

Mae'r polisïau cyfrifyddu canlynol wedi cael eu defnyddio'n gyson wrth ymdrin ag eitemau a ystyrir yn berthnasol yn gysylltiedig â datganiadau ariannol yr elusen.

### Sail y Gwaith Paratoi

Mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi yn unol â dogfen lywodraethol yr elusen, Deddf Elusennau 2011 ac "Accounting and Reporting by Charities: Statement of Recommended Practice applicable to charities preparing their accounts in accordance with the Financial Reporting Standard applicable in the UK and Republic of Ireland (FRS 102)" (yn weithredol o 1 Ionawr 2019). Mae'r elusen yn Endid Budd Cyhoeddus fel y'i diffinnir gan FRS 102.

Caiff asedau a rhwymedigaethau eu cydnabod i ddechrau ar gost hanesyddol neu werth trafodiad ac eithrio:

a) Buddsoddiadau a gadwir ar werth teg drwy'r datganiad o weithgareddau ariannol.

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi mewn sterling, sef arian cyfred gweithredol yr elusen.

### Talgrynnu

Mae'r ffigurau sydd wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol wedi'u talgrynnu i'r bunt agosaf.

### Busnes gweithredol

Ar adeg cymeradwyo'r datganiadau ariannol, mae gan yr ymddiriedolwyr ddisgwyliad rhesymol bod gan yr elusen adnoddau digonol i barhau i fodoli'n weithredol am y dyfodol rhagweladwy. Gan hynny, mae'r ymddiriedolwyr yn parhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

### Cronfeydd Elusennol

Mae cronfeydd anghyfyngedig ar gael i'w defnyddio yn ôl doethineb yr ymddiriedolwyr i hyrwyddo eu hamcanion elusennol onid yw'r cronfeydd wedi'u dynodi i ddibenion eraill.

Mae'n rhaid i gronfeydd cyfyngedig fodloni amodau penodol gan roddwyr ynghylch sut y gellir eu defnyddio. Mae dibenion a defnyddiau'r cronfeydd cyfyngedig wedi'u nodi yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol.

## Adnoddau sy'n Dod i Mewn

Cydnabyddir incwm pan fydd gan yr elusen hawl gyfreithiol iddo ar ôl bodloni unrhyw amodau perfformiad, y gellir cyfrif y symiau yn ddibynadwy, a'i bod yn debygol y bydd yr incwm yn cael ei dderbyn.

Cydnabyddir rhoddion arian parod wrth eu derbyn. Cydnabyddir rhoddion eraill cyn gynted ag y bo'r elusen wedi cael gwybod am y rhodd, onid yw amodau perfformiad yn ei gwneud yn ofynnol i ohirio'r swm. Cydnabyddir treth incwm y gellir ei hadennill mewn perthynas â rhoddion a dderbynnir o dan Gymorth Rhodd neu weithredoedd cyfamod ar adeg y rhodd.

Caiff gwerth gwasanaethau a roddir a rhoddion mewn nwyddau a ddarperir i'r elusen eu cydnabod yn ôl eu gwerth ar y farchnad agored yn y cyfnod y maent yn dderbyniadwy fel adnoddau sy'n dod i mewn, lle gellir cyfrif y budd i'r elusen yn ddibynadwy. Mae swm cyfatebol wedi'i gynnwys fel gwariant o dan y pennawd perthnasol yn y datganiad o weithgareddau ariannol.

Cydnabyddir incwm o grantiau pan fydd gan yr elusen hawl i'r arian, pan fydd unrhyw amodau perfformiad sydd ynghlwm wrth y grantiau wedi'u bodloni, pan fo'n debygol y bydd yr incwm yn cael ei dderbyn a phan y gellir cyfrif y swm yn ddibynadwy ac nad yw wedi'i ohirio.

Caiff grantiau y gellir eu derbyn yn benodol i brynu asedau sefydlog i'w defnyddio'n barhaus gan yr elusen eu trin fel cronfeydd cyfyngedig. Caiff y gronfa gyfyngedig wedyn ei gostwng ar sail y symiau sy'n gyfwerth a'r chostau dibrisiant yr asedau dan sylw, a bydd yn y gostyngiadau hynny'n parhau hyd ddiwedd oes ddefnyddiol yr asedau dan sylw.

Cydnabyddir incwm o weithgareddau elusennol yn y cyfnod y mae'r gwasanaeth yn berthnasol iddo, gan ohirio unrhyw symiau a dderbynnir ymlaen llaw.

Nid oes unrhyw symiau wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol ar gyfer gwasanaethau ac amser a roddir gan wirfoddolwyr.

Mae llog ar gyllid a difidendau o fuddsoddiadau wedi'i gynnwys pan fydd yn dderbyniadwy ac y gall yr elusen gyfrif y swm yn ddibynadwy.

Cyfrifir trosiant ar werth teg yr ystyriaeth a dderbynnir neu sy'n dderbyniadwy, ac mae'n cynrychioli'r symiau sy'n dderbyniadwy am nwyddau a gwasanaethau a ddarperir yn rhan o'r busnes arferol, ac eithrio disgowntiau, treth ar werth a threthi gwerthu eraill.

## Enillion a Cholledion Buddsoddi

Mae hyn yn cynnwys unrhyw enillion neu golledion, wedi’u gwireddu neu heb eu gwireddu wrth werthu buddsoddiadau, ac unrhyw enillion neu golledion sy'n deillio o ailbrisio buddsoddiadau'n unol â gwerth y farchnad ar ddiwedd y flwyddyn. Caiff yr holl enillion a cholledion eu cynnwys yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol wrth iddynt godi.

Cyfrifir enillion a cholledion a wireddir ar fuddsoddiadau ar sail y gwahaniaeth rhwng enillion wrth werthu a'u gwerth llyfr agoriadol neu eu gwerth prynu os cawsant eu caffael ar ôl diwrnod cyntaf y flwyddyn ariannol. Cyfrifir enillion a cholledion heb eu gwireddu ar sail y gwahaniaeth rhwng y gwerth teg ar ddiwedd y flwyddyn a'u gwerth llyfr. Caiff enillion a cholledion a wireddir a heb eu gwireddu eu cyfuno yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol.

## Adnoddau a Wariwyd

Cydnabyddir gwariant cyn gynted ag y ceir rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol i wneud taliad i drydydd parti, ei bod hi'n debygol y bydd y setliad yn ofynnol, ac y gellir cyfrifo swm y rhwymedigaeth yn ddibynadwy. Caiff gwariant ei ddosbarthu o dan y penawdau gweithgarwch canlynol:

Mae gwariant ar weithgareddau elusennol yn cynnwys yr holl gostau sy'n gysylltiedig â hyrwyddo amcanion yr elusen, fel y'u datganwyd yn adroddiad yr ymddiriedolwyr.

Codir TAW na ellir ei hadennill fel cost yn erbyn y gweithgaredd yr ysgwyddwyd y gwariant ar ei gyfer.

Lle bo modd, priodolir costau'n uniongyrchol i'r gweithgaredd y maent yn gysylltiedig ag ef. Lle na ellir priodoli costau'n uniongyrchol i benawdau neilltuol, maent wedi'u dyrannu i weithgareddau ar sail sy'n gyson â'r defnydd o'r adnoddau.

Costau cymorth yw'r swyddogaethau hynny sy'n cefnogi gwaith yr elusen, ond nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â chynnal gweithgareddau elusennol. Mae costau llywodraethu yn cynnwys yr holl gostau sy'n ymwneud ag atebolrwydd cyhoeddus yr elusen a'i chydymffurfiaeth â rheoliadau ac arfer da.

## Gwrthbwyso

Ni fu unrhyw wrthbwyso asedau a rhwymedigaethau, nac incwm a threuliau, onid oedd hynny'n ofynnol neu wedi'i ganiatáu drwy FRS 102 SORP neu FRS 102.

## Asedau Sefydlog Diriaethol

Cyfrifir asedau sefydlog diriaethol i ddechrau ar gost ac yna eu cyfrifo ar gost neu brisiad, ar ôl colledion am ddibrisiant neu amhariad.

Cydnabyddir dibrisiant er mwyn dileu cost neu brisiad asedau llai eu gwerthoedd gweddilliol dros eu hoes ddefnyddiol ar y sail ganlynol:

Offer Swyddfa – sail llinell syth 25%.

Pennir yr elw neu’r golled sy’n codi wrth waredu ased fel y gwahaniaeth rhwng yr elw gwerthu a gwerth cario’r ased ac fe’i cydnabyddir yn yr incwm/(gwariant) net ar gyfer y flwyddyn.

## Asedau sefydlog anniriaethol

Caiff asedau anniriaethol a gaffaelwyd ar wahân i fusnes eu cydnabod ar gost, ac wedyn eu mesur ar gost llai unrhyw golledion amorteiddiad a amhariad cronedig.

Cydnabyddir amorteiddio er mwyn dileu cost neu brisiad asedau llai eu gwerthoedd gweddilliol dros eu hoes ddefnyddiol ar y sail ganlynol:

System CRM – sail llinell syth 25%.

## Buddsoddiad mewn Asedau Sefydlog

Caiff buddsoddiadau mewn asedau sefydlog eu cyfrifo i ddechrau ar bris y trafodiad heb gynnwys costau'r trafodion ac yna cânt eu cyfrifo ar sail eu gwerth teg ar bob dyddiad adrodd. Cydnabyddir newidiadau mewn gwerth teg yn yr incwm/(gwariant) net ar gyfer y flwyddyn. Caiff costau trafodion eu cofnodi fel treuliau wrth iddynt godi.

## Amhariad ar Asedau Sefydlog

Ar bob dyddiad diwedd adrodd, mae'r elusen yn adolygu symiau cario ymlaen ei hasedau diriaethol i benderfynu a oes unrhyw arwydd o golled oherwydd amhariad i'r asedau hynny. Os oes unrhyw arwydd o'r fath, amcangyfrifir swm adferadwy'r ased er mwyn pennu maint y golled oherwydd amhariad (os o gwbl).

Caiff asedau anniriaethol ag oes ddefnyddiol amhenodol ac asedau anniriaethol nad ydynt ar gael i'w defnyddio eto eu profi am amhariad yn flynyddol, a phryd bynnag y ceir arwydd y gallai amhariad fod ar ased.

## Arian parod a gwerthoedd sy'n cyfateb i arian parod

Mae arian parod a gwerthoedd sy'n cyfateb i arian parod, adneuon a ddelir mewn cyfrifon galw yn y banciau, buddsoddiadau hylifol byrdymor eraill gydag aeddfedrwydd gwreiddiol o dri mis neu lai, a gorddrafftiau banc. Dangosir gorddrafftiau banc o fewn benthyciadau yn y rhwymedigaethau cyfredol.

## Offerynnau Ariannol

Mae'r elusen wedi dewis cymhwyso darpariaethau Adran 11 'Offerynnau Ariannol Sylfaenol' ac Adran 12 'Materion Offerynnau Ariannol Eraill' o FRS 102 i'w holl offerynnau ariannol.

Caiff offerynnau ariannol eu cydnabod ar fantolen yr elusen pan fydd yr elusen yn ymrwymo i ddarpariaethau cytundebol yr offeryn.

Caiff asedau a rhwymedigaethau ariannol eu gwrthbwyso, gyda'r symiau net a gyflwynir yn y datganiadau ariannol, pan fo hawl y gellir ei gorfodi'n gyfreithiol i wrthbwyso'r symiau cydnabyddedig, a bod bwriad i setlo ar sail net neu i wireddu'r ased a setlo'r rhwymedigaeth ar yr un pryd.

## Asedau Ariannol Sylfaenol

Caiff asedau ariannol sylfaenol, sy'n cynnwys dyledwyr a balansau arian parod a banc, eu cyfrifo i ddechrau ar bris trafodiad gan gynnwys costau'r trafodiad ac yna cânt eu cario ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog sydd mewn grym, onid yw'r trefniant yn gyfystyr â thrafodiad ariannu, lle caiff y trafodiad ei fesur ar werth presennol y derbyniadau yn y dyfodol wedi'u disgowntio ar gyfradd llog y farchnad. Ni chaiff asedau ariannol a ddosberthir fel rhai sy'n dderbyniadwy o fewn blwyddyn eu hamorteiddio.

## Dad-gydnabod Asedau Ariannol

Dim ond pan fydd hawliau cytundebol i'r llif arian o'r ased yn dod i ben neu'n cael eu setlo y caiff asedau ariannol eu dad-gydnabod, neu pan fydd yr elusen yn trosglwyddo'r ased ariannol ac, i raddau sylweddol, holl risgiau ac enillion y berchnogaeth i endid arall, neu os cedwir rhai o risgiau ac enillion sylweddol y berchnogaeth ond bod rheolaeth dros yr ased wedi'i throsglwyddo i barti arall sy'n gallu gwerthu'r ased yn ei gyfanrwydd i drydydd parti anghysylltiedig.

## Rhwymedigaethau Ariannol Sylfaenol

Caiff rhwymedigaethau ariannol sylfaenol, gan gynnwys credydwyr a benthyciadau banc, eu cydnabod i ddechrau am bris y trafodiad onid yw'r trefniant yn gyfystyr â thrafodiad ariannu, lle caiff yr offeryn dyled ei gyfrifo ar werth presennol y taliadau yn y dyfodol wedi'u disgowntio ar gyfradd llog y farchnad. Ni chaiff rhwymedigaethau ariannol a ddosberthir fel rhai sy'n daladwy o fewn blwyddyn eu hamorteiddio.

Wedi hynny, caiff offerynnau dyled eu cario ar gost wedi'i hamorteiddio, gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog sydd mewn grym.

Credydwyr masnach yw rhwymedigaethau i dalu am nwyddau neu wasanaethau sydd wedi'u caffael gan gyflenwyr wrth gyflawni gweithrediadau arferol. Caiff symiau sy'n daladwy eu dosbarthu fel rhwymedigaethau cyfredol os yw'r taliad yn ddyledus o fewn blwyddyn neu lai. Os ddim, cânt eu cyflwynon fel rhwymedigaethau anghyfredol. Caiff credydwyr masnach eu cydnabod i ddechrau am bris y trafodiad ac yna eu cyfrifo ar gost wedi'i hamorteiddio drwy ddefnyddio'r dull llog sydd mewn grym.

## Dad-gydnabod Rhwymedigaethau Ariannol

Caiff rhwymedigaethau ariannol eu dad-gydnabod pan fydd rhwymedigaethau cytundebol yr elusen yn dod i ben neu'n cael eu rhyddhau neu eu canslo.

## Trethi

Fel elusen gofrestredig, mae gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru hawl i gael ei heithrio rhag trethiant mewn perthynas ag incwm ac enillion cyfalaf a dderbynnir gydag adrannau 521-536 o Ddeddf Treth Incwm 2007 ac adran 256 o'r Ddeddf Trethu Enillion Trethadwy 1992 i'r graddau y cânt eu cymhwyso i ddibenion ei hamcanion elusennol yn unig.

## Buddion Cyflogeion

Mae costau buddion cyflogeion byrdymor wedi'u cydnabod fel rhwymedigaeth a threuliau, onid yw'n ofynnol cydnabod y costau hynny'n rhan o gost stoc neu asedau sefydlog.

Cydnabyddir cost unrhyw hawl sydd heb ei defnyddio i wyliau yn y cyfnod pan dderbynnir gwasanaethau'r cyflogai.

Caiff buddion terfynu cyflogaeth eu cydnabod ar unwaith fel treuliau pan fydd yr elusen wedi ymrwymo’n glir i derfynu cyflogaeth cyfogai neu i ddarparu buddion terfynu cyflogaeth.

## Buddion Ymddeol

Codir am daliadau i gynlluniau buddion ymddeol cyfraniadau wedi'u diffinio fel traul wrth iddynt ddod yn ddyledus.

## Lesoedd

Codir am renti sy'n daladwy o dan lesoedd gweithredu fel traul ar sail llinell syth dros gyfnod y les berthnasol.

## 2. Amcangyfrifon a Dyfarniadau Cyfrifyddu Tyngedfennol

Wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu’r elusen, mae’n ofynnol i’r ymddiriedolwyr wneud dyfarniadau, amcangyfrifon a rhagdybiaethau ynghylch swm cario asedau a rhwymedigaethau nad ydynt yn amlwg o ffynonellau eraill. Mae'r amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau cysylltiedig yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill a ystyrir yn berthnasol. Gall canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn.

Caiff yr amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau sy'n sail iddynt eu hadolygu'n barhaus. Cydnabyddir diwygiadau i amcangyfrifon cyfrifyddu yn y cyfnod y caiff yr amcangyfrif ei ddiwygio ynddo lle nad yw'r diwygiad ond yn effeithio ar y cyfnod hwnnw, neu yng nghyfnod yr diwygiad a chyfnodau yn y dyfodol lle bo'r diwygiad yn effeithio ar gyfnodau cyfredol a chyfnodau yn y dyfodol.

## 3. Incwm o Roddion ac Ewyllysiau

| | Cronfeydd Anghyfyngedig £ | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cyfanswm 2024 £ | Cyfanswm 2023 £ |
|---|---|---|---|---|
| Tanysgrifiadau a ffioedd aelodaeth | 113,204 | - | 113,204 | 87,204 |
| Gwasanaethau a Roddwyd | 20,368 | - | 20,368 | 20,368 |
| Rhoddion | 3,959 | 14,000 | 17,959 | 15,130 |
| Rhodd Cymorth | - | - | - | 8,884 |
| | 137,531 | 14,000 | 151,531 | 131,586 |
| | | | | Gwasanaethau a Roddwyd |
| Gofod swyddfa â gwasanaeth | 16,000 | - | 16,000 | 16,000 |
| Lleoliadau ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau | 2,000 | - | 2,000 | 2,000 |
| Gwasanaethau Proffesiynol | 568 | - | 568 | 568 |
| Offer cyfrifiadurol | 1,800 | - | 1,800 | 1,800 |
| | 20,368 | - | 20,368 | 20,368 |

# 4. Incwm o Weithgareddau Elusennol

| | Cronfeydd Anghyfyngedig £ | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cyfanswm 2024 £ | Cyfanswm 2023 £ |
|---|---|---|---|---|
| Grantiau | 453,524 | 24,422 | 477,946 | 408,091 |
| Incwm amrywiol | - | - | - | - |
| | 453,524 | 24,422 | 477,946 | 408,091 |

**Incwm grant a dderbyniwyd o'r ffynonellau canlynol:**

| | Cronfeydd Anghyfyngedig £ | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cyfanswm 2024 £ | Cyfanswm 2023 £ |
|---|---|---|---|---|
| Prifysgol Aberystwyth | 16,223 | - | 16,223 | 15,750 |
| Prifysgol Bangor | 29,613 | - | 29,613 | 28,750 |
| Yr Academi Brydeinig | - | - | - | 500 |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 16,223 | - | 16,223 | 15,750 |
| Prifysgol Caerdydd | 45,000 | 5,000 | 50,000 | 50,000 |
| Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru | 275,445 | | 275,445 | 171,959 |
| Y Brifysgol Agored yng Nghymru | 4,326 | | 4,326 | 4,200 |
| Ymddiriedolaeth Addysgol Sefydliad Peirianwyr De Cymru | | 3,800 | 3,800 | 3,800 |
| Prifysgol Abertawe | 29,613 | | 29,613 | 29,050 |
| Prifysgolion Cymru | - | - | - | 20,000 |
| Prifysgol De Cymru | 16,223 | | 16,223 | 15,750 |
| Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant | 15,450 | | 15,450 | 15,000 |
| Llywodraeth Cymru | | 15,622 | 15,622 | 32,332 |
| Prifysgol Glyndŵr Wrecsam | 5,408 | | 5,408 | 5,250 |
| | 453,524 | 24,422 | 477,946 | 408,091 |

## 5. Incwm o Fuddsoddiadau

| | Cronfeydd Anghyfyngedig £ | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cyfanswm 2024 £ | Cyfanswm 2023 £ |
|---|---|---|---|---|
| Llog i'r banc | 5,351 | | 5,351 | 944 |
| Incwm difidend | 4,537 | | 4,537 | 8,250 |
| | 9,888 | | 9,888 | 9.194 |

## 6. Gwariant Gweithgareddau Elusennol

| | Gweithgareddau £ | Cyhoeddiadau £ | Datblygu polisi £ | Llywodraethu £ | Cyfanswm 2024 £ | Cyfanswm 2023 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflogau | 228,870 | 57,217 | 76,290 | 19,073 | 381,450 | 290,881 |
| Yswiriant Gwladol | 20,595 | 5,149 | 6,465 | 2,117 | 34,326 | 22,115 |
| Pensiwn | 10,533 | 2,633 | 3,511 | 878 | 17,555 | 14,466 |
| Teithio | 1,225 | - | - | - | 1,225 | 1,167 |
| Llety | - | - | - | - | - | - |
| Teithiau Staff | 3,260 | - | - | - | 3,260 | 438 |
| Eiddo | 9,984 | 1,536 | 2,304 | 1,536 | 15,360 | 16,483 |
| Cyfrifiadura | 5,183 | 3,110 | 1,555 | 518 | 10,366 | 18,521 |
| Ffioedd Proffesiynol | - | - | - | 8,355 | 8,355 | 3,840 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 83,639 | - | - | - | 83,639 | 163,244 |
| Gweinyddu | 41,777 | 20,889 | 8,355 | 12,534 | 83,555 | 37,826 |
| Costau staff eraill | - | - | - | - | - | 600 |
| Hysbysebu | 6,233 | - | - | - | 6,233 | - |
| | 411,299 | 90,534 | 98,480 | 45,011 | 645,324 | 569,581 |

Mae costau llywodraethu yn cynnwys £4,200 o daliadau i'r archwilwyr annibynnol (2023: £2,286)

# 7. Incwm Net am y Flwyddyn

Datgenir hyn ar ôl codi tâl am:

| | 2024<br>£ | 2023<br>£ |
|---|---|---|
| Dibrisiant ac amorteiddiad | 3,806 | 3,232 |
| Ffi archwilio annibynnol | 4,200 | 2,286 |

# 8. Dadansoddiad o Gostau Staff, Tâl a Threuliau Ymddiriedolwyr, a Chost Personél Rheoli Allweddol

| | 2024<br>£ | 2023<br>£ |
|---|---|---|
| Tâl a Chyflogau | 381,450 | 290,881 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 34,326 | 22,115 |
| Costau Pensiwn | 17,555 | 14,466 |
| | 433,331 | 327,462 |

Dyma nifer y gweithwyr yr oedd eu tâl blynyddol yn fwy na £60,000:

| | 2024<br>£ | 2023<br>£ |
|---|---|---|
| £60,000 - £70,000 | 0 | 1 |
| £70,000 - £80,000 | 1 | 0 |

Mae taliadau setliad, sef cyfanswm o £dim wedi'u cynnwys yn y costau tâl a chyflogau uchod (2023: £600). Nid oedd unrhyw symiau yn weddill ar ddiwedd y flwyddyn gyfredol na'r flwyddyn gynt.

**Personél Rheoli Allweddol**
Cyfanswm y tâl a dalwyd i bersonél rheoli allweddol yn ystod y flwyddyn (gan gynnwys cyflog gros, cyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr a chyfraniadau pensiwn y cyflogwr) oedd £87,531 (2023: £78,274)

**Trafodion gydag Ymddiriedolwyr**
Ni dderbyniodd yr un o'r ymddiriedolwyr (nac unrhyw bersonau sy'n gysylltiedig â nhw) unrhyw dâl na buddion gan yr elusen yn ystod y flwyddyn gyfredol na'r flwyddyn gynt.
Ynn ystod y flwyddyn cafodd 3 ymddiriedolwr (2023: 3) ad-daliad am gyfanswm o £1,225 o dreuliau (2023: £378) yn gysylltiedig â theithio a chynhaliaeth.

# 9. Niferoedd y Staff

Yn sgil ad-drefnu'r fframwaith staffio, dyma oedd nifer cyfartalog y staff a gyflogwyd bob mis, ynghyd â nifer cyfartalog y cyflogeion cyfwerth ag amser llawn yn ystod y flwyddyn:

| | Nifer y staff | Nifer y cyflogeion cyfwerth ag amser llawn |
|---|---|---|
| Gradd G: Prif Weithredwr | 1 | 1 |
| Gradd F: Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus, Rheolwr Ymgysylltu Strategol | 1.5 | 1.5 |
| Gradd E: Clerc, Rheolwr y Rhaglen Datblygu Ymchwilwyr | 1.7 | 1.4 |
| Gradd D: Swyddog Cyfathrebu, Swyddog y Gymrodoriaeth | 2 | 1.5 |
| Gradd C: Swyddog Cyllid, Swyddog Gweithrediadau, Swyddog y Rhaglen Datblygu Ymchwilwyr | 2.7 | 2 |
| Gradd B: Cynorthwyydd Digwyddiadau | 0.5 | 0.5 |
| Cyfanswm (2024) | 9.2 | 7.9 |

Fel bo modd cymharu â ffigurau'r llynedd, mae pob rôl, ac eithrio'r Prif Weithredwr a'r Clerc, wedi'u cynnwys fel 'Swyddogion Gweithredol' isod:

Roedd nifer cyfartalog y staff a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | Cyfanswm 2024 Nifer | Cyfanswm 2023 Nifer |
|---|---|---|
| Prif Weithredwr | 1 | 1 |
| Clerc | 0.7 | 1 |
| Swyddogion Gweithredol | 7.5 | 5 |
| | 9.2 | 7 |

Roedd nifer cyfartalog y gweithwyr cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | Cyfanswm 2024 Nifer | Cyfanswm 2023 Nifer |
|---|---|---|
| Prif Weithredwr | 1.00 | 1.00 |
| Clerc | 0.40 | 0.80 |
| Swyddogion Gweithredol | 6.50 | 6.10 |
| | 7.90 | 7.90 |

# 10. Asedau Sefydlog

| | Offer Swyddfa £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|
| **Cost** | | |
| Ar 1 Awst 2023 | 6,425 | 6,425 |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 5,156 | 5,156 |
| Ar 31 Gorffennaf 2024 | 11,581 | 11,581 |
| **Dibrisiant** | | |
| Ar 1 Awst 2023 | 5,391 | 5,391 |
| Cost am y flwyddyn | 1,345 | 1,345 |
| Ar 31 Gorffennaf 2024 | 6,736 | 6,736 |
| **Gwerth llyfr net** | | |
| Ar 31 Gorffennaf 2024 | 4,845 | 4,845 |
| Ar 31 Gorffennaf 2023 | 1,034 | 1,034 |

# 11. Asedau sefydlog anniriaethol

| | Meddalwedd cyfrifiadurol £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|
| **Cost** | | |
| Ar 1 Awst 2023 | 10,740 | 10,740 |
| Ar 31 Gorffennaf 2024 | 10,740 | 10,740 |
| **Dibrisiant** | | |
| Ar 1 Awst 2023 | 8,279 | 8,279 |
| Cost am y flwyddyn | 2,461 | 2,461 |
| Ar 31 Gorffennaf 2024 | 10,740 | 10,740 |
| **Gwerth llyfr net** | | |
| Ar 31 Gorffennaf 2024 | - | - |
| Ar 31 Gorffennaf 2023 | 2,461 | 2,461 |

# 12. Buddsoddiadau

| | 2024<br>£ | 2023<br>£ |
|---|---|---|
| Balans a ddygwyd ymlaen | 121,210 | 123,437 |
| Ychwanegiadau at fuddsoddiad yn ystod y cyfnod | 5,076 | 6,392 |
| Enillion yn sgil ailbrisio'r portffolio | 12,765 | (8,619) |
| Gwerth teg ar 31 Gorffennaf 2024 | 139,051 | 121,210 |

Dadansoddiad o fuddsoddiadau:

| | 2024<br>Gwerth teg<br>£ | 2024<br>Cost llyfr<br>£ | 2023<br>Gwerth teg<br>£ | 2023<br>Cost llyfr<br>£ |
|---|---|---|---|---|
| Buddsoddiadau rhestredig | 139,051 | 108,520 | 121,210 | 108,520 |
| | 139,051 | 108,520 | 121,210 | 108,520 |

# 13. Dyledwyr

| | 2024<br>£ | 2023<br>£ |
|---|---|---|
| Dyledwyr masnach | 56,777 | 23,477 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 4,864 | 19,354 |
| | 61,641 | 42,831 |

# 14. Credydwyr: Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

| | 2024<br>£ | 2023<br>£ |
|---|---|---|
| Credydwyr masnach | 1,912 | 38,909 |
| Incwm gohiriedig | 89,702 | 7,512 |
| Croniadau | 58,664 | 4,440 |
| Credydwyr eraill | 352 | 4,126 |
| | 150,630 | 54,987 |

Mae incwm gohiriedig yn ymwneud â ffioedd cymrodoriaeth a dderbyniwyd cyn y cyfnod y mae'r ffioedd yn berthnasol iddo:

| | 2024<br>£ | 2023<br>£ |
|---|---|---|
| Wedi'i ddwyn ymlaen | 7,512 | 2,871 |
| Symiau a dderbyniwyd | 103,850 | 91,925 |
| Incwm wedi'i ryddhau | (21,660) | (87,284) |
| Wedi'i gario ymlaen | 89,702 | 7,512 |

# 15. Offerynnau Ariannol

| | 2024<br>£ | 2023<br>£ |
|---|---|---|
| Swm cario asedau ariannol | | |
| Offerynnau a gyfrifir ar werth teg drwy elw neu golled | 139,051 | 121,210 |

# 16. Cynlluniau Buddion Ymddeol

Mae'r elusen yn gweithredu cynllun pensiwn cyfraniadau wedi'u diffinio ar gyfer pob gweithiwr cymwys. Cedwir asedau'r cynllun ar wahân i rai'r elusen mewn cronfa a weinyddir yn annibynnol. Cyfanswm y costau pensiwn am y flwyddyn oedd £17,555 (2023: £14,467). Ar ddiwedd y flwyddyn, cyfanswm y symiau'n weddill oedd £3,773 (2023: £3,491).

# 17. Cronfeydd Cyfyngedig

| | Ar 1 Awst 2023 £ | Incwm £ | Gwariant £ | Ar 31 Gorffennaf 2024 £ |
|---|---|---|---|---|
| CCAUC | 9,897 | | (9,897) | - |
| Ymddiriedolaeth Addysgol Sefydliad Peirianwyr De Cymru (SWIEET) | - | 3,800 | (3,800) | - |
| Llywodraeth Cymru | - | 15,622 | (15,622) | - |
| Prifysgol Caerdydd | 5,000 | 5,000 | (10,000) | - |
| Therapïau Taran | - | 14,000 | (14,000) | 0 |
| | 14,897 | 38,422 | (53,319) | 0 |

Mae **CCAUC** yn ymwneud â chyllid a dderbyniwyd ar gyfer ein cytundeb partneriaeth i ddatblygu cynllun cymorth cenedlaethol ar gyfer datblygu ymchwilwyr. Ar gyfer 2023/24, nid oes unrhyw gyfyngiadau mwyach ar y defnydd o incwm a dderbynnir gan CCAUC.

Mae **Ymddiriedolaeth Addysg Sefydliad Peirianwyr De Cymru (SWIEET)**yn ymwneud â chefnogaeth a ddarperir ar gyfer digwyddiadau, a gweithgareddau i hyrwyddo rhagoriaeth mewn gwyddoniaeth, peirianneg a thechnoleg ledled Cymru.

Mae **Llywodraeth Cymru** yn ymwneud â chyllid i gefnogi Medal Frances Hoggan.

Mae **Prifysgol Caerdydd** yn ymwneud â chefnogaeth a ddarparwyd ar gyfer y seremoni fedalau flynyddol a gynhelir ym mis Tachwedd 2024.

Mae **Therapïau Taran** yn ymwneud â chefnogaeth a ddarperir ar gyfer cinio blynyddol y Gymdeithas.

*Y flwyddyn flaenorol*

| | Ar 1 Awst 2022 £ | Incwm £ | Gwariant £ | Ar 31 Gorffennaf 2023 £ |
|---|---|---|---|---|
| CCAUC | 24,485 | 171,959 | (186,547) | 9,897 |
| Ymddiriedolaeth Addysgol Sefydliad Peirianwyr De Cymru (SWIEET) | 3,275 | 3,800 | (7,075) | - |
| Llywodraeth Cymru | - | 31,700 | (31,700) | - |
| Prifysgol Caerdydd | - | 5,000 | - | 5,000 |
| Prifysgolion Cymru | - | 10,000 | (10,000) | - |
| Humanigen | | 13,000 | (13,000) | - |
| | 27,760 | 235,459 | (248,322) | 14,897 |

# 18. Cronfeydd Anghyfyngedig

| | Ar 1 Awst 2023 £ | Incwm £ | Gwariant £ | Elw ar fuddsoddiadau £ | Ar 31 Gorffennaf 2024 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Gronfa Gyffredinol | 425,782 | 600,943 | (592,005) | 12,765 | 447,485 |
| | 425,782 | 600,943 | (592,005) | 12,765 | 447,485 |

*Y flwyddyn flaenorol*

| | Ar 1 Awst 2022 £ | Incwm £ | Gwariant £ | Colled ar fuddsoddiadau £ | Ar 31 Gorffennaf 2023 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Gronfa Gyffredinol | 442,248 | 313,412 | (321,259) | (8,619) | 425,782 |
| | 442,248 | 313,412 | (321,259) | (8,619) | 425,782 |

# 19. Dadansoddiad o Asedau Net Rhwng Cronfeydd

| | Cronfeydd anghyfyngedig £ | Cronfeydd cyfyngedig £ | Cyfanswm y cronfeydd 2024 £ |
|---|---|---|---|
| Asedau sefydlog diriaethol | 4,845 | - | 4,845 |
| Asedau sefydlog anniriaethol | - | - | - |
| Buddsoddiadau mewn asedau sefydlog | 139,051 | - | 139,051 |
| Asedau cyfredol | 303,589 | 0 | 303,589 |
| | 447,485 | 0 | 447,485 |

*Y flwyddyn flaenorol*

| | Cronfeydd anghyfyngedig £ | Cronfeydd cyfyngedig £ | Cyfanswm y cronfeydd 2024 £ |
|---|---|---|---|
| Asedau sefydlog diriaethol | 1,034 | - | 1,034 |
| Asedau sefydlog anniriaethol | 2,461 | - | 2,461 |
| Buddsoddiadau mewn asedau sefydlog | 121,210 | - | 121,210 |
| Asedau cyfredol | 301,077 | 14,897 | 315,974 |
| | 425,782 | 14,897 | 440,679 |

## 20. Trafodion Partïon Cysylltiedig

Yn ystod y flwyddyn, darparodd Ymddiriedolaeth Addysgol Sefydliad Peirianwyr De Cymru incwm o £3,800 i'r elusen (£3,800 yn 2023). Mae gan y ddau sefydliad ymddiriedolwyr cyffredin. Nid oedd unrhyw symiau heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn gyfredol (2023: £dim).

## 21. Lesoedd Gweithredu

| | 2024 £ | 2023 £ |
|---|---|---|
| O fewn un flwyddyn | - | - |
| | | |

## 22. Cysoni Incwm /(Gwariant) Net i'r Llif Arian Parod Net o Weithgareddau Gweithredu

| | 2024<br>£ | 2023<br>£ |
|---|---|---|
| Incwm/(Gwariant) net ar gyfer y Cyfnod Adrodd (yn unol â'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol) | 6,806 | (29,329) |
| *Addasiadau ar gyfer:* | | |
| Costau dibrisiant ac amorteiddio | 3,806 | 3,232 |
| Gwerth Teg (enillion)/colledion ar fuddsoddiadau | (12,765) | 8,619 |
| Difidendau, llog a rhenti o fuddsoddiadau | (9,888) | (9,194) |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn dyledwyr | (18,810) | (19,061) |
| Cynnydd /(gostyngiad) mewn credydwyr | 95,643 | (1,006) |
| Arian parod net a ddarparwyd drwy/(a ddefnyddiwyd mewn) (g)weithgareddau gweithredol | 64,792 | (46,739) |
| Dadansoddiad o Arian Parod a Gwerthoedd sy'n Cyfateb i Arian Parod | | |
| Arian parod mewn llaw | 392,578 | 328,130 |
| Cyfanswm Arian Parod a Gwerthoedd sy'n Cyfateb i Arian Parod | 392,578 | 328,130 |

## 23. Datganiad Cymharol o Weithgareddau Ariannol

| | Cronfeydd anghyfyngedig £ | Cronfeydd cyfyngedig £ | Cyfanswm y cronfeydd 2023 £ |
|---|---|---|---|
| Incwm a gwaddolion o: | | | |
| Rhoddion ac ewyllysiau | 118,586 | 13,000 | 131,586 |
| Gweithgareddau elusennol | 185,632 | 222,459 | 408,091 |
| Buddsoddiadau | 9,194 | - | 9,194 |
| *Cyfanswm incwm a gwaddolion* | 313,412 | 235,459 | 548,871 |
| Gwariant ar: | | | |
| Gweithgareddau elusennol | 321,259 | 248,322 | 559,581 |
| *Cyfanswm y gwariant* | 321,259 | 248,322 | 559,581 |
| *Colled/elw net ar fuddsoddiadau* | (8,619) | | (8,619) |
| *Symudiad net mewn cronfeydd* | (16,466) | (12,863) | (29,329) |
| Cysoni cronfeydd | | | |
| Cyfanswm y cronfeydd a ddygwyd ymlaen | 442,248 | 27,760 | 470,008 |
| *Cyfanswm y cronfeydd a gariwyd ymlaen* | 425,782 | 14,897 | 440,679 |